



Côd Ymarfer Gonestrwydd Gwaith Ymchwil a'i Lywodraethu

Fersiwn 3.0, Gorffennaf 2019

**Tîm Llywodraethu Ymchwil, Gwasanaethau Ymchwil ac
Arloesedd
Prifysgol Caerdydd**

Cynnwys

Rhagair.....	3
1. Datganiad Egwyddor.....	4
1.1 Cyflwyniad.....	4
1.2 Cwmpas y Côd Ymarfer hwn.....	4
1.3 Amcanion Ymchwil.....	4
1.4 Colegoldeb.....	4
1.5 Rhagoriaeth.....	4
2. Gwerthoedd Craidd.....	5
2.1 Trosolwg.....	5
2.2 Gonestrwydd.....	5
2.3 Agwedd Agored.....	5
2.4 Trylwyredd.....	5
2.5 Metrigau Cyfrifol.....	5
2.6 Gofal a Pharch.....	6
2.7 Atebolrwydd a Chyfrifoldeb.....	6
3. Safonau Ymchwil.....	7
3.1 Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth.....	7
3.2 Data a Chofnodion Ymchwil.....	8
3.2.1 Rheoli Data a Chofnodion Ymchwil.....	8
3.2.2 Metadata a Dogfennaeth.....	8
3.2.3 Cadw.....	9
3.2.4 Mynediad at Ddata a Chadw Data.....	9
3.3 Ddeddfwriaeth Diogelu Data.....	9
3.4 Gadael y Brifysgol.....	10
3.4.1 Staff ymchwil.....	10
3.4.2 Myfyrwyr ymchwil.....	10
3.5 Cyhoeddiadau ac Awduriaeth.....	11
3.5.1 Egwyddorion Cyhoeddi.....	11
3.5.2 Penderfynu ar Awduraeth.....	12
3.5.3 Cydnabod y Cyfranwyr.....	12
3.6 Hyfforddiant.....	13
3.6.1 Trosolwg.....	13
3.6.2 Cyfrifoldeb Ymchwilwyr Arweiniol/Goruchwylwyr.....	13
3.6.3 Rhaglen Hyfforddiant Ar-lein Gonestrwydd Ymchwil.....	14
3.7 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.....	14
3.8 Gofynion Moesegol.....	15
3.8.1 Trosolwg.....	15
3.8.2 Ymchwil sy'n cynnwys Pobl, Deunydd Dynol (gan gynnwys Gweddillion Dynol Hynafol) neu Ddata Dynol.....	15
3.8.3 Ymchwil sy'n cynnwys Cyfranogwyr Dynol: Egwyddorion Sylfaenol.....	16
3.9 Ymchwil Meinweoedd Dynol a Deddf Meinweoedd Dynol 2004.....	17
3.10 Ymchwil sy'n Cynnwys Anifeiliaid.....	18
3.11 Ymchwil Glinigol.....	18
3.11.1 Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Fframwaith Polisi).....	18
3.11.2 Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004 (SI 2004/1031).....	19
3.11.3 Cofrestru Treialon Clinigol ac Ymchwil Glinigol ar Gronfeydd Data sydd ar gael i'r Cyhoedd.....	19
3.12. Eiddo Deallusol.....	20
3.12.1 Diffiniad a Phwysigrwydd.....	20
3.12.2 Perchnogaeth.....	21
3.12.3 Diogelu.....	21

3.13	Gwrthdaro rhwng Buddiannau.....	22
3.13.1	Categoriâu Gwrthdaro.....	23
3.13.2	Datganiad a Rheoli.....	23
3.14	Gwrth-lwgrwobrwyo, Atal Twyll a Gwrth-lygredd.....	24
3.15	Rheolyddion Allforio.....	24
3.16	Ymchwil Sensitif o ran Diogelwch.....	25
3.17	Camymddygiad Ymchwil.....	25
4.	Datganiad i Gloi.....	26
5.	Adolygiad a Chydnabyddiaethau.....	26
	Atodiad 1: Deunydd Ffynhonnell a Pholisïau a Chanllawiau Cysylltiedig.....	27
	Atodiad 2: Strwythur Pwyllgor Gonestrwydd Ymchwil Prifysgol Caerdydd.....	31

Rhagair

Ein gweledigaeth yw bod yn un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r byd, sy'n rhagorol o ran ymchwil ac yn neilltuol yn addysgol, yn cael ein gyrru gan greadigrwydd a chwilfrydedd. Rydym am fod yn brifysgol sy'n cyflawni ei rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, i Gymru, i'r Deyrnas Unedig ac i'r byd. ([Y Ffordd Ymlaen, 2018-2023](#)).

Mewn ymchwil, ein nod yw bod ymysg y Prifysgolion gorau yn y DU, yn creu gwybodaeth, adnoddau a pholisïau newydd mewn partneriaeth â busnes, diwydiant, llywodraeth a phrif rhanddeiliaid eraill, wedi'i hwyluso gan amgylchedd ymchwil bywiog a chynhwysol. Mae'r deilliannau ymchwil yn rhan hanfodol o gyflymu'r cyfraniadau mae Prifysgol Caerdydd yn eu gwneud ym meysydd iechyd, cyfoeth, diogelwch a lles cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, yn y DU ac yn fyd-eang.

Mae gonestrwydd ymchwil, moeseg ac ymchwil agored yn rhan hanfodol o'r weledigaeth hon, ac fel Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter, rydw i'n ymrwymo i sicrhau bod Caerdydd yn cael ei gweld fel arweinydd yn y maes. Wrth weithio gyda'n staff a myfyrwyr, rydym yn ymdrechu i gynnal mwy o gysondeb yn ein dull adolygu moesegol ar draws y Brifysgol, yn datblygu dulliau arloesol o gefnogi gwyddoniaeth agored a defnydd cyfrifol o fetrigau ymchwil, ac yn gwneud yn siŵr bod ein staff a myfyrwyr yn cael hyfforddiant o ansawdd uchel fel eu bod yn gwybod sut i ymgymryd ag ymchwil yn onest.

Mae ein hymagwedd at onestrwydd ymchwil wedi'i ddatblygu yn unol â'n hymrwymiad a chefnogaeth i Goncordat Cefnogi Cyfanrwydd Ymchwil yn ogystal â Pholisi Cynghorau Ymchwil y DU a Chanllawiau gyfer Llywodraethu Ymddygiad Ymchwil Da.

Mae Côt Ymarfer Gonestrwydd Gwaith Ymchwil a'i Lywodraethu Prifysgol Caerdydd yn amlinellu polisiâu, gweithdrefnau ac adnoddau hyfforddi rydym wedi'u datblygu, sydd wedi'u dylunio i helpu ein staff a myfyrwyr i gynnal ymchwil ragorol gyda gonestrwydd.

Rydym yn disgwyl i'n holl staff a myfyrwyr ddarllen y Côt Ymarfer ac yn gyfarwydd ag ef. Felly, treuliwch amser yn darllen y ddogfen hon ac ewch i'r gwefannau y cyfeirir atynt ynddi. Mae'r Côt Ymarfer wedi'i ddylunio i'ch helpu chi ddatblygu dealltwriaeth fanwl o ymarfer da mewn ymchwil, gan gefnogi eich datblygiad fel ymchwilydd.

Drwy greu cymuned ymchwil sy'n unedig o ran ein hymrwymiad i ddarparu'r safonau uchaf o ran cyflawniad academiaidd, gallwn sicrhau bod Prifysgol Caerdydd yn parhau yn arweinydd sector ym maes gonestrwydd ymchwil.

Yr Athro Kim Graham

Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter

1. Datganiad Egwyddor

1.1 Cyflwyniad

Gonestrwydd Ymchwil yw'r ymlyniad gweithredol i'r safonau cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol sy'n hanfodol i ymddygiad ymchwil diogel a chyfrifol.

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'w holl staff a myfyrwyr arsylwi'r safonau uchaf o Onestrwydd Gwaith Ymchwil a'i Lywodraethu pryd bynnag y maent yn cymryd rhan mewn gweithgaredd ymchwil; drwy gydol cylch oes ymchwil. Mae'r Côt Ymarfer hwn wedi'i gynllunio i hyrwyddo ymddygiad da ym mhob cam o brosiect ymchwil, ac mae'n cynnwys fframwaith ar gyfer ymarfer ymchwil da. Nod y Côt Ymarfer hwn yw cynorthwyo'r holl staff a myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymchwil er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol a moesegol, a helpu i atal camymddygiad, er mwyn hwyluso ymchwil o ansawdd uchel.

Mae'n gyfrifoldeb ar bob ymchwilydd i ymgyswrtu â'r Côt Ymarfer hwn, a chadw ato. Gall torri'r Côt Ymarfer hwn fod yn sail ar gyfer camau disgyblu a/neu gall fod yn gyfystyr â chamymddygiad ymchwil, yn dibynnu ar natur a difrifoldeb yr achos.

1.2 Cwmpas y Côt Ymarfer hwn

Mae'r Côt Ymarfer hwn yn berthnasol i bob maes pwnc ac i bob aelod o staff a myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymchwil yn y Brifysgol, gan gynnwys ei staff a'i myfyrwyr sy'n cynnal ymchwil y tu allan i'r Brifysgol, ond fel rhan o'u rôl yn y Brifysgol, yn ogystal ag unrhyw un nad yw'n gyflogedig gan y Brifysgol ond sydd â chaniatâd i gynnal ymchwil yn y Brifysgol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'Ymchwilwyr').

1.3 Amcanion Ymchwil

Prif amcan ymchwil yw dyfnhau ac ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth drwy ddulliau arbenigol, cyfrifol a phroffesiynol, gan gynnwys lledaenu canlyniadau drwy ystod o allbynnau wedi'u teilwra sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa darged.

Dylai ymchwil hefyd geisio bodloni'r amcanion ychwanegol a ganlyn:

- i. Hyfforddi Ymchwilwyr newydd mewn dulliau priodol a safonau proffesiynol;
- ii. Hyrwyddo buddiannau a manteision ymchwil;
- iii. Ymelwa ar ganlyniadau er lles y cyhoedd a budd y Brifysgol a'i staff a'i myfyrwyr.

1.4 Colegoldeb

Mae'r Brifysgol yn gymuned amrywiol, ryngddisgyblaethol o ysgolheigion ac Ymchwilwyr sydd mewn sawl ffordd yn dibynnu ar ei gilydd. Fel sefydliad ac fel unigolion, mae'n bwysig cefnogi'r syniad o golegoldeb effeithiol. Rhaid i ymchwilwyr ystyried a yw eu gweithgareddau yn debygol o effeithio ar gydweithwyr eraill, grwpiau ymchwil, Ysgolion, Sefydliadau Ymchwil, Colegau neu'r Brifysgol yn ei chyfanrwydd. Mae angen i ymchwilwyr fod yn ymwybodol o oblygiadau posibl eu gweithredoedd arfaethedig, boed hynny ar unwaith neu yn y tymor hir, a cheisio gweithredu mewn modd colegol bob amser.

1.5 Rhagoriaeth

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'r holl Ymchwilwyr ymdrechu at gyflawni rhagoriaeth wrth wneud ymchwil a cheisio cynhyrchu a lledaenu gwaith o'r radd flaenaf. Nod y Côt Ymarfer hwn yw ategu'r nod hwn.

2. Gwerthoedd Craidd

2.1 Trosolwg

Mae Gonestrwydd Ymchwil yn seiliedig ar gyfres o werthoedd craidd, sy'n helpu i hyrwyddo arferion ymchwil da. Bydd ymrwymiad i'r gwerthoedd craidd hyn yn helpu i wneud yn siŵr nad yw Gonestrwydd Ymchwil yn broses fecanyddol yn unig, ond wedi'i hymgorffori yn y broses ddyddiol o wneud penderfyniadau a myfyrio.

2.2 Gonestrwydd

Rhaid meithrin diwylliant o onestrwydd ym mhob maes gweithgarwch ymchwil.

Rhaid i Ymchwilwyr fod yn onest o ran eu gweithredoedd eu hunain ac yn eu hymatebion i weithredoedd Ymchwilwyr eraill. Mae hyn yn cynnwys bod yn onest wrth gyflwyno nodau, bwriadau a chanfyddiadau gwaith ymchwil; wrth adrodd am ddulliau a gweithdrefnau gwaith ymchwil; wrth gasglu a dadansoddi data; wrth ddefnyddio a chydabod gwaith pobl eraill; wrth wneud dehongliadau dilys a honiadau y gellir eu cyfiawnhau ar sail canfyddiadau gwaith ymchwil ac wrth rannu allbynnau ymchwil. Ni chaiff ymchwilwyr gamymddwyn na chuddio camymddygiad. Mae'n ddyletswydd arnynt i roi gwybod am achosion posibl o gamymddwyn mewn ffordd briodol ([gweler Adran 3.17](#)).

2.3 Agwedd Agored

Dylai dulliau, canlyniadau a data ymchwil sy'n cefnogi'r canlyniadau hynny fod yn agored i graffu, trafodaeth a dadl. Yn amodol ar ystyriaethau megis cyfrinachedd a diogelu hawliau eiddo deallusol, dylai Ymchwilwyr fod yn agored ag Ymchwilwyr eraill a'r cyhoedd ynghylch eu gwaith a hyrwyddo cyfnewid agored o syniadau a gwybodaeth. Dylai cyfathrebu fod yn dryloyw ac yn agored wrth ddatgan gwrthdaro rhwng buddiannau; wrth adrodd ar ddulliau casglu data ymchwil; wrth ddadansoddi a dehongli data; wrth wneud yn siŵr bod darganfyddiadau ymchwil ar gael yn eang, gan gynnwys rhannu canlyniadau negyddol fel y bo'n briodol; ac wrth gyflwyno gwaith i Ymchwilwyr eraill a'r cyhoedd.

Mae'r Brifysgol yn Brifysgol Mynediad Agored ac mae'n cefnogi Concordat 2016 ar Ddata Ymchwil Agored. Dylid gwneud ein holl allbynnau ymchwil a data "mor agored â phosibl, ac ar gau yn ôl yr angen" yn unol ag egwyddorion data FAIR. Cyfeiriwch at [Adran 3.2](#) ac [Adran 3.5](#) i gael rhagor o wybodaeth am ofynion y Brifysgol a disgwyliadau o ran Data Agored a Mynediad Agored.

2.4 Trylwyredd

Dylai Ymchwilwyr gynnal ymchwil yn unol â'r safonau uchaf o ran trylwyredd yn unol â normau a safonau disgyblu cyffredinol. Rhaid i ymchwilwyr ymgymryd â hyfforddiant priodol er mwyn cynnal ymchwil hyd at y safonau a ddisgwylir. Rhaid cymhwyso trylwyredd wrth ddewis dulliau ymchwil; wrth gynnal gwaith ymchwil; wrth gadw at brotocolau y cytunwyd arnynt pan fo hynny'n briodol; wrth ddadansoddi data ymchwil; wrth lunio dehongliadau a chasgliadau'r gwaith ymchwil; wrth ddilysu'r canlyniadau cyn eu cyhoeddi; ac wrth gyfathrebu'r canlyniadau.

2.5 Metrigau Cyfrifol

Mae Datganiad San Francisco ar Asesu Ymchwil (DORA) yn ddatganiad y mae prifysgolion a sefydliadau eraill (cyhoeddwr, arianwr) yn ei lofnodi i ymrwmo i gefnogi a hyrwyddo'r defnydd cyfrifol o fetrigau a dangosyddion meintiol ymchwil.

Drwy lofnodi DORA, mae Prifysgol Caerdydd yn ymrwmo i seilio asesiad perfformiad ymchwil ac ansawdd yn bennaf ar ansawdd cynnwys yr ymchwil a asesir, drwy adolygiad gan gymheiriaid, gan beidio â rhoi mwy o ystyriaeth na sydd ei angen i fibliometreg sy'n seiliedig ar y cyfnodolyn lle cafodd yr ymchwil ei gyhoeddi. Mae DORA yn ymrwmo'r Brifysgol i asesu rhagoriaeth ymchwil a'i defnydd mewn hyrwyddo a ffurfiau eraill o asesu ymchwil, drwy ystyried cynnwys gwyddonol yn hytrach na chyhoeddi mewn cyfnodolion dylanwadol. Mae'r ymagwedd hon yn helpu i sicrhau ystyriaeth dryloyw a theg o ansawdd ymchwil/cyfraniadau ymchwilwyr ar gyfnodau gwahanol yn eu gyrfa.

2.6 Gofal a Pharch

Rhaid trin pawb sy'n gysylltiedig â gwaith ymchwil, boed yn cymryd rhan neu'n destun yr ymchwil, gyda pharch a gofal. Mae hyn yn cynnwys pobl, anifeiliaid, yr amgylchedd a gwrthrychau diwylliannol. Rhaid i Ymchwilwyr fynd i'r afael ag unrhyw bryder sy'n ymwneud ag urddas, hawliau, diogelwch a llesiant pawb sy'n ymwneud ag ymchwil. Rhaid i Ymchwilwyr hefyd ddangos gofal a pharch at sut caiff gwaith ymchwil ac ysgolheictod eu rheoli ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rhaid dangos gofal a sylw dyladwy at faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy gydol y broses ymchwil (am ragor o fanylion am hyn a gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, gweler [Adran 3.7](#)).

2.7 Atebolrwydd a Chyfrifoldeb

Cyfrifoldeb yr Ymchwilydd unigol yw diogelu gonestrwydd unrhyw waith ymchwil yn y lle cyntaf. Cyfrifoldeb yr Ymchwilydd yw gwneud yn siŵr bod y gwaith yn bodloni'r holl safonau proffesiynol a'r egwyddorion a amlinellir yn y Côd Ymarfer hwn.

Mae gan ymchwilwyr ddyletswydd i fod yn atebol i'r gymdeithas, i'w proffesiwn, i'r Brifysgol ac i noddwyr y gwaith ymchwil. Mae hyn yn cynnwys derbyn cyfrifoldeb llawn am broffesiynoldeb a gonestrwydd pob agwedd ar ymddygiad a chyhoeddi eu hymchwil, ac am weithgareddau unrhyw staff neu fyfyrwr dan eu cyfarwyddyd ac adrodd am achosion o wrthdaro rhwng buddiannau (p'un a'n wirioneddol neu'n bosibl) neu amheuaeth o gamymddwyn, yn y modd priodol.

Rhaid i Ymchwilwyr dderbyn cyfrifoldeb am gymryd camau i sicrhau diogelwch y rhai sy'n gysylltiedig ag ymchwil, rheolaeth ariannol y prosiect ymchwil, a cheisio darparu'r gwerth gorau posibl am yr arian cyhoeddus neu breifat a fuddsoddir yn y prosiect.

Dylai Ymchwilwyr hefyd gydymffurfio â pholisïau a chanllawiau'r Brifysgol a'r gofynion cyfreithiol a pholisi sy'n rheoleiddio maes eu hymchwil, yn enwedig yr egwyddorion sylfaenol sy'n ymwneud â moeseg, gwybodaeth, cyllid ac iechyd a diogelwch. Disgwylir i staff academiaidd sy'n ymwneud ag ymchwil gydymffurfio â'r egwyddorion a'r disgwyliadau a gynhwysir yn 'Academydd Caerdydd' a 'Disgwyliadau Perfformiad y Coleg' (gweler [Atodiad 1](#)). Disgwylir i Ymchwilwyr sy'n aelodau o broffesiwn a reoleiddir ddilyn gofynion a chanllawiau eu proffesiwn.

Rhaid i Ymchwilwyr wneud yn siŵr bod yr holl waith a wneir yn cyd-fynd ag unrhyw gytundeb, canllawiau penodol a/neu'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r prosiect a chyllid grant. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod y gwaith yn cael ei gynnal yn unol â'r diffiniad yn y cynnig gwreiddiol; bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio at y diben y'i bwriadwyd yn unig; bod adroddiadau'n gywir ac yn eu llunio'n brydlon; a chydymffurfio â'r amodau sy'n ymwneud â chyhoeddi, rheoli data

ac eiddo deallusol. Mae'n rhaid adrodd am fethiannau yn unrhyw un o'r agweddau hyn, neu achosion o gamymddwyn yn unol â gofynion y prosiect a'r Brifysgol.

3. Safonau Ymchwil

3.1 Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth

Polisi'r Brifysgol yw bod Ymchwilwyr yn cael goruchwyliaeth ddigonol, a rhaid i Ymchwilwyr ymglyfarwyddo eu hunain â disgwyliadau goruchwyliaeth ac arolygiaeth eu grŵp ymchwil, yr Ysgol, y Sefydliad Ymchwil a/neu'r Coleg. Fel rheol, disgwylir i'r Ymchwilwyr fod yn atebol i Arweinydd y Grŵp, Ymchwilydd Arweiniol neu, mewn achos penodol pan mae'r ymchwilwyr yn fyfyrwyr, i'r Goruchwylwr.

Arweinydd y Grŵp/Ymchwilydd Arweiniol/Goruchwylwr y prosiect ymchwil sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod yr holl Ymchwilwyr dan eu goruchwyliaeth/rheolaeth wedi cael gwybod yn briodol am eu cyfrifoldebau dan y Côd Ymarfer hwn, a'u bod yn ymgymryd â gwaith ymchwil yn unol â'i ddarpariaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau'r canlynol:

- i. bod urddas, hawliau, lles a diogelwch unrhyw un sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil yn cael ei gynnal;
- ii. bod ymchwil yn cael ei chynnal yn unol â chanllawiau (gan gynnwys arfer gorau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch), a chymeradwyaeth gan bob corff angenrheidiol cyn dechrau'r gwaith ymchwil (gyda chymeradwyaeth hefyd i unrhyw ddiwygiad arfaethedig i'r protocol y cytunwyd arno);
- iii. bod asesiad risg yn cael ei wneud o'r prosiect a gynlluniwyd i benderfynu ar y risgiau posibl i'r sefydliad, yr ymchwil, diogelwch a llesiant y rhai sy'n cymryd rhan a'r Ymchwilwyr, yr amgylchedd, a nodi'r gofynion cyfreithiol a moesegol sy'n llywodraethu'r ymchwil (gweler [Atodiad 1](#) i weld y rhestr wirio a argymhellir ar gyfer Ymchwilwyr);
- iv. bod y prosiect yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a moesegol perthnasol;
- v. bod gan yr Ymchwilydd ymwybyddiaeth drylwyr o ofynion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chydraddoldeb ac yn rhannu'r wybodaeth honno â'r rhai dan ei h/arweinyddiaeth;
- vi. bod aelodau o'r tîm ymchwil yn gymwys ac yn brofiadol i gyflawni eu swyddogaethau, gan gynnwys sicrhau goruchwyliaeth, cefnogaeth a hyfforddiant digonol i fyfyrwyr ac Ymchwilwyr a'u bod wedi cynnal gwiriadau priodol, e.e. gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a/neu wiriadau Safonol Diogelwch Personél Sylfaenol;
- vii. bod gweithdrefnau yn eu lle i gasglu, storio, rheoli a chadw data o ansawdd uchel yn ddiogel ac, yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol, moesegol a masnachol, gwneud yn siŵr bod data o'r fath ar gael ar ôl cwblhau'r prosiect ymchwil, a bod y gweithdrefnau hyn wedi'u dogfennu mewn cynllun rheoli data lle bo angen;
- viii. bod yr adroddiadau hyn ar gynnydd ymchwil a chanlyniadau yn cael eu paratoi'n brydlon ac i safon dderbyniol;
- ix. bod canlyniadau ymchwil yn cael eu dosbarthu'n brydlon ac yn cael eu bwydo'n ôl i'r rhai sy'n cymryd rhan fel bo'n briodol;
- x. bod canfyddiadau yn agored i adolygiad drwy sianeli gwyddonol a phroffesiynol a dderbynnir a bod data ymchwil yn cael ei gofrestru'n briodol i hwyluso'r gwaith canfod a mynediad;
- xi. bod trefniadau ar waith i reoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill a ddarperir ar gyfer y prosiect, ac unrhyw eiddo deallusol sy'n codi ohonynt;
- xii. bod yr Ymchwilydd yn derbyn y rôl allweddol o ganfod ac atal camymddwyn drwy gymryd cyfrifoldeb am bob agwedd ar onestrwydd ymchwil sy'n ymwneud â chyhoeddiad penodol; y gwneir darpariaeth ar gyfer parhau i reoli data ymchwil, cofnodion a samplau os bydd Ymchwilydd yn gadael y Brifysgol;
- xiii.

- xiv. Lle bo cydweithredu â sefydliadau allanol, bod cytundeb ffurfiol ynglŷn â pherchnogaeth data cyn dechrau'r prosiect.

Disgwylir i Arweinwyr Grŵp/Ymchwilwyr Arweiniol/Goruchwylwyr i sefydlu awyrgylch o drefn a chydweithredu yn eu tîm, gan feithrin cyfnewid syniadau mewn ffordd agored a gwneud yn siŵr bod arferion rheoli cadarn yn bodoli i ddiogelu gonestrwydd yr ymchwil a gaiff ei gynnal. Rhaid i Ymchwilwyr newydd (gan gynnwys myfyrwyr ymchwil) gael mynediad at y Côt Ymarfer hwn, ac at unrhyw ganllaw priodol arall ar arferion gorau.

Mae'n rhaid i Arweinwyr Grŵp/Ymchwilwyr Arweiniol/Goruchwylwyr wneud yn siŵr nad yw Ymchwilwyr yn cael eu rhoi dan bwysau masnachol neu bwysau o fath arall sy'n atal mynd ar drywydd arferol ymchwiliad trylwyr a gonest.

Cyfeiriwch at [Adran 3.6.2](#) am wybodaeth bellach am y disgwyliadau o ran Goruchwylwyr ymchwil.

3.2 Data a Chofnodion Ymchwil

3.2.1 Rheoli Data a Chofnodion Ymchwil

Un o egwyddorion sylfaenol arfer da mewn ymchwil yw rheoli data a chofnodion ymchwil yn effeithiol. Mae'r Brifysgol yn darparu arweiniad, hyfforddiant, cymorth technegol a seilwaith i gynorthwyo Ymchwilwyr i reoli eu data a'u cofnodion ymchwil yn effeithiol. Rhaid i Ymchwilwyr wneud yn siŵr eu bod yn gwbl ymwybodol o unrhyw bolisi gan gyllidwr, deddfwriaeth berthnasol, polisiau a chanllawiau'r Brifysgol ac arfer gorau penodol i ddisgyblaeth yn ymwneud â rheoli data a chofnodion ymchwil, a chydymffurfio â nhw.

Mae Ymchwilwyr yn gyfrifol am gofnodi'n fanwl, sicrhau ansawdd a rheoli eu data ymchwil. Wrth lunio cynnig, rhaid i Ymchwilwyr ystyried sut byddant yn mynd ati i reoli eu data a chofnodion ymchwil ym mha bynnag fformat drwy gydol oes y prosiect, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn parhau'n ddiogel, yn cynnal eu gonestrwydd a'u dilysrwydd ac yn parhau i fod ar gael drwy gydol y cyfnod cadw penodedig. Rhaid rhoi sylw dyledus hefyd i ddarparu mynediad at y data ymchwil. Fel arfer da (ac fel sy'n ofynnol gan lawer o gyllidwyr ymchwil), mae'n rhaid i'r holl brosiectau ymchwil sy'n creu neu'n casglu data gynnwys yr ystyriaethau hyn mewn cynllun rheoli data (DMP) wedi ei ddogfennu'n ffurfiol. Rhaid gweithredu'r Cynllun hwn, a'i ddiweddarau pan fo angen drwy gydol oes y prosiect. Fel rhan o'u Cynllun, mae'n rhaid i Ymchwilwyr wneud yn siŵr eu bod wedi asesu'r risgiau sy'n ymwneud â chyfrinachedd, gonestrwydd, argaeledd a chydymffurfio o ran eu data ac wedi defnyddio'r rheolaethau diogelwch priodol. Mae adnoddau perthnasol ar gael drwy wefan rhaglen y Fframwaith Diogelwch Gwybodaeth (gweler [Atodiad 1](#)).

Yn unol â'r Fframwaith Diogelwch Gwybodaeth, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi (RIS) yw'r Arweinydd Data o ran Gwybodaeth Ymchwil, gan gynnwys data ymchwil.

Bydd y Brifysgol yn darparu swm sylweddol o le storio electronig diogel i gefnogi Ymchwilwyr. Mae pob Ysgol/Sefydliad Ymchwil yn gyfrifol am nodi lle bydd angen storio y tu hwnt i'r swm hwn ac ar gyfer gwneud darpariaeth briodol i ddarparu ar gyfer lle storio diogel ar bapur ac yn electronig.

3.2.2 Metadata a Dogfennaeth

Rhaid i Ymchwilwyr wneud yn siŵr bod data ymchwil a chofnodion yn cael eu creu gyda digon o fetadata a dogfennaeth o ansawdd uchel i esbonio eu tarddiad, eu cynnwys a'u cyd-destun, a phan fydd modd mynd atynt yn allanol, rhaid iddynt fod o fewn cyrraedd hawdd i eraill eu haildefnyddio yn y dyfodol.

Bydd disgwyl i Ymchwilwyr gofrestru manylion eu data ymchwil, a'r darpariaethau ar gyfer cael mynediad ato yn unol â gofynion cyllidwyr ac yn unol ag unrhyw ddull dynodedig gan y Brifysgol. Pan na fydd gan gyllidwyr ofynion yn ymwneud â chofrestru data, anogir Ymchwilwyr o hyd i gofnodi manylion gyda'r Brifysgol.

3.2.3 Cadw

Pan gaiff ymchwil ei hariannu, rhaid cadw'r data ymchwil a chofnodion yn unol â'r cyfnod cadw a bennir gan yr ariannwr. Yn absenoldeb gofynion yr ariannwr, rhaid cadw data ymchwil a chofnodion yn unol â gofynion cadw'r Brifysgol (fel y nodir yn rhestr cadw cofnodion y Brifysgol (gweler [Atodiad 1](#))). Os yw'r data ymchwil a'r cofnodion yn destun ffeilio patentau, bydd rhaid i'r data gael ei gadw ar gyfer oes y patent.

Rhaid i ddata ymchwil a chofnodion a gafwyd o Dreialon Clinigol Cynhyrchion Meddyginiaethol Ymchwiliol gael eu rheoli a'u cadw yn unol â Gweithdrefnau Gweithredu Safonau perthnasol.

3.2.4 Mynediad at Ddata a Chadw Data

Mae'r Brifysgol yn cefnogi safbwynt Ymchwil ac Arloesedd ar ymchwil agored, gan gynnwys y Concordat ar Ddata Ymchwil Agored 2016 (gweler Atodiad 1).

Ar ddiwedd y prosiect, yn amodol ar unrhyw ystyriaeth gyfreithiol, gytundebol a moesegol, rhaid i ddata fod ar gael yn agored mewn modd amserol a chyfrifol. Mae gan Ymchwilwyr hawl i gyfnod cyfyngedig o fynediad breintiedig i weithio ar eu data, i baratoi cyhoeddiadau ac i gynnal archwiliadau masnachol, ond disgwylir y bydd data ar gael ddim hwyrach na chyhoeddi cynnyrch yr ymchwil. Hyd yn oed os nad oes gofynion gan yr ariannwr, ac fel mater o arfer gorau, dylai Ymchwilwyr geisio sicrhau bod data ar gael ac yn agored lle bynnag y bo'n bosibl.

Bydd data ymchwil sy'n profi canfyddiadau ymchwil neu sy'n debygol o fod o ddiddordeb ar gyfer ymchwil yn y dyfodol yn cael ei adneuo i'w gadw mewn gwasanaeth neu gadwrfa data Prifysgol, cenedlaethol neu ryngwladol, lle mae ystyriaethau cyfreithiol, cytundebol a moesegol yn caniatáu hynny. Rhaid i'r data ymchwil gael ei roi gyda'r metadata a'r ddogfennaeth briodol ac mae'n rhaid iddo lynu at egwyddorion data FAIR, sy'n gofyn i ddata fod yn Hawdd ei Ganfod, Hygyrch, Rhyngweithredol ac Aildefnyddiadwy (gweler Atodiad 1).

Lle mae data'n cael ei adneuo'n allanol, rhaid bod yn ofalus wrth wneud yn siŵr nad yw hawliau'n cael eu neilltuo heb gadw'r hawl i wneud y data sydd ar gael yn agored i'w aildefnyddio, oni bai bod hwn yn amod gwreiddiol yn nyfarniad cyllidol y prosiect ymchwil. Lle nad oes modd i ddata fod ar gael yn eang, mae'n rhaid i Ymchwilwyr roi mynediad i drydydd parti dan gytundebau cyfrinachedd priodol y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol i'w galluogi i wirio canlyniadau.

3.3 Ddeddfwriaeth Diogelu Data¹

Rhaid i Ymchwilwyr gydymffurfio â'r deddfwriaeth Diogelu Data pryd bynnag y byddant yn meddu ar wybodaeth a fyddai'n fodd o adnabod unigolyn byw. Gelwir hyn yn 'ddata personol'. Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn ei gwneud yn ofynnol i Ymchwilwyr feddu ar sail briodol i'w galluogi i ddefnyddio data personol at ddibenion ymchwil, ac mae'n nodi egwyddorion y mae'n rhaid eu cymhwyso i ddefnyddio, storio a datgelu'r data personol (caiff storio data ymchwil sylw yn [Adran 3.2](#)). Mae defnydd cyfreithlon o ddata personol sensitif (a elwir hefyd yn 'Categori Arbennig' o ddata) yn cael ei gyfyngu ymhellach dan y deddfwriaeth. Mae data personol sensitif yn cynnwys cyflwr

¹ Mae deddfwriaeth diogelu data yn cynnwys y Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) a bydd yn cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth Diogelu Data cysylltiedig sy'n cael ei basio gan Senedd y DU

iechyd meddwl neu gorfforol unigolion; eu credoau crefyddol, athronyddol neu wleidyddol; aelodaeth o undeb llafur; eu cofnod troseddol; eu tarddiad hiliol neu ethnig a manylion am eu bywyd rhywiol.

Mae cyfres o nodiadau arweiniol ar gyfer Ymchwilyr ar gael, sy'n esbonio Diogelu Data mewn ymchwil (gweler [Atodiad 1](#)).

3.4 Gadael y Brifysgol

3.4.1 Staff ymchwil

Rhaid i staff ymchwil sy'n gadael y Brifysgol wneud yn siŵr bod darpariaethau priodol yn cael eu gwneud o fewn eu Hysgol, eu Sefydliad neu eu Hadran i gadw eu data a'u cofnodion ymchwil yn barhaus, eu storio a darparu mynediad at ddata, cofnodion neu samplau eu hymchwil (boed yn rhai dynol ai peidio). Bydd aelod o staff yr Ysgol/Sefydliad/Adran yn cael ei nodi i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddata, cofnodion neu samplau'r ymchwil. Yn ddiodyn, bydd y cyfrifoldeb hwn yn dychwelyd i Bennaeth yr Ysgol, yr Adran neu'r Sefydliad Ymchwil os na nodir enw unrhyw aelod arall o staff.

Rhaid i staff sy'n dymuno cadw data ymchwil, cofnodion neu samplau ymchwil ar ôl iddynt adael y Brifysgol, wneud yn siŵr bod yr holl weithdrefnau a gofynion priodol yn cael eu dilyn. Yn benodol, rhaid i staff ymchwil hysbysu ac ymgynghori â'u Hysgol/Sefydliad/Adran cyn cymryd data ymchwil, cofnodion neu samplau. Rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â thelerau unrhyw gytundeb ariannu (neu gytundeb arall) sy'n ymwneud ag eiddo deallusol a/neu drosglwyddo deunydd o'r fath. Ceir cyngor pellach yn y maes hwn gan Wasanaethau Ymchwil ac Arloesedd.

Pan fo data personol yn cael ei gynnwys yn y data ymchwil neu gofnodion, rhaid i Ymchwilyr ymgynghori gyda Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol (yn Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu'r Brifysgol) cyn symud y copïau gwreiddiol. Yn yr un modd, rhaid i unrhyw Ymchwilydd sy'n dymuno cadw samplau meinweoedd dynol, ymgynghori â Thîm Cydymffurfio â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol.

3.4.2 Myfyrwyr ymchwil

Rhaid i fyfyrwyr ymchwil sy'n gadael y Brifysgol ymgynghori â'u Goruchwyliwr i wneud yn siŵr bod darpariaethau priodol yn eu lle o fewn eu Hysgol, eu Sefydliad neu eu Hadran i gadw eu data a'u cofnodion ymchwil yn barhaus, eu storio a darparu mynediad at ddata, cofnodion neu samplau eu hymchwil. Bydd aelod o staff yr Ysgol/Sefydliad Ymchwil/Adran yn cael ei nodi i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am unrhyw ddata, cofnodion neu samplau ymchwil sydd ar ôl yn y Brifysgol. Yn ddiodyn, bydd y cyfrifoldeb hwn yn dychwelyd i Oruchwyliwr y myfyriwr os na nodir enw aelod arall o staff.

Fel mater o arfer gorau, mae'n rhaid i ymchwilyr sy'n fyfyrwyr geisio hwyluso mynediad agored at eu data ymchwil lle bo hynny'n bosibl, a chydymffurfio ag unrhyw ofynion ariannwr sy'n ymwneud â data agored. Cyfeiriwch at [Adrannau 2.3](#) a [3.2.4](#) am fwy o wybodaeth neu cysylltwch â opendata@caerdydd.ac.uk.

Rhaid i fyfyrwyr sydd am gadw eu data ymchwil, cofnodion neu samplau ymchwil ar ôl iddynt adael y Brifysgol wneud yn siŵr nad oes unrhyw gyfyngiad yn eu cytundeb cyllido neu gytundebau eraill (e.e. gyda'r Brifysgol), a fyddai'n eu hatal rhag gwneud hynny. Rhaid i fyfyrwyr hefyd hysbysu ac ymgynghori eu Goruchwyliwr cyn cymryd data ymchwil, cofnodion neu samplau, gan fod perchnogaeth (a mewnbwn deallusol i greu) data, cofnodion a samplau o'r fath yn aml yn gymhleth. Ceir cyngor pellach yn y maes hwn gan Wasanaethau Ymchwil ac Arloesedd.

Pan fo data personol yn cael ei gynnwys yn y data ymchwil neu gofnodion, rhaid i fyfyrwyr ymchwil ymgynghori â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol (yn Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu'r Brifysgol) cyn symud y copiâu gwreiddiol. Yn yr un modd, rhaid i unrhyw fyfyrwyr ymchwil sy'n dymuno cadw samplau meinweoedd dynol, ymgynghori â Thîm Cydymffurfio â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol.

3.5 Cyhoeddiadau ac Awduriaeth

3.5.1 Egwyddorion Cyhoeddi

Mae gan Ymchwilwyr gyfrifoldeb i gyhoeddi a rhannu ymchwil mewn modd sy'n adrodd yr ymchwil yn gywir, a heb ddewis a dethol mewn ffordd a allai fod yn gamarweiniol. Mae hyn yn ymestyn i adrodd canfyddiadau/canlyniadau negyddol.

Dylid cyhoeddi ymchwil lle bo hynny'n bosibl², gan ystyried unrhyw amodau a bennir gan yr ariannwr ymchwil (lle bo'n berthnasol) a/neu ddiogelu unrhyw eiddo deallusol neu wybodaeth gyfrinachol (cyfeiriwch at [Adran 3.12](#)). Un eithriad i'r rheol safonol o gyhoeddi'n gyntaf drwy sianel gydnabyddedig fyddai pan fyddai materion iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch difrifol dan sylw. Byddai diogelwch y cyhoedd yn cael blaenoriaeth yn yr achosion hyn. Yn sgil hynny, rhaid i ganfyddiadau ymchwil gofal iechyd yn enwedig gael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl.

Dylai'r holl ymchwil a gyhoeddir gan Ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd, gynnwys 'Prifysgol Caerdydd' ym maes cyfeiriad yr awdur bob amser (i ddynodi cysylltiad). Yn y mwyafrif o achosion, ac yn unol â disgwyliadau 'Data Agored', dylid darparu data ategol a dylai ymchwil a gyhoeddwyd gynnwys datganiad byr yn amlinellu sut, ac ar ba delerau, y gellid cael gafael ar y data.

Ni ddylai awduron gyhoeddi mwy nag un papur wedi ei seilio ar yr un set o ddata, ac eithrio lle ceir cyfeiriadau a chydnabyddiaethau llawn a thrylwyr at y papur(au) blaenorol. Rhaid i gyhoeddiad gynnwys cyfeiriadau priodol os yw'n sylweddol debyg i erthygl(au) eraill ar yr un ymchwil. Mae'n rhaid i unrhyw awdur sy'n cyflwyno gwaith tebyg i fwy nag un cyhoeddwr wneud yn siŵr bod pob cyhoeddwr yn ymwybodol o hyn pan gyflwynir y gwaith.

Dylid lledaenu canlyniadau'r ymchwil yn eang ac ar ffurf briodol, a thrwy hynny ganiatáu i'r gymuned yn gyffredinol weld, herio a datblygu canlyniadau ymchwil. Dylai'r holl gyhoeddiadau gynnwys digon o wybodaeth i alluogi Ymchwilwyr eraill i ailadrodd y gweithdrefnau a ddefnyddiwyd yn wreiddiol yn gywir. Mae'n bwysig bod y cynnyrch ymchwil yn cael ei adolygu gan gymheiriaid drwy sianeli gwyddonol a phroffesiynol derbyniol, lle bynnag y bo'n bosibl.

Rhaid i awduron wneud yn siŵr eu bod nhw'n bodloni gofynion Mynediad Agored arianwyr. Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, rhaid i awduron gyflwyno testun llawn o'r llawysgrif dderbyniedig derfynol (ôl-argraffu) o'u herthyglau mewn cyfnodolion a'u trafodion cynadleddau a gyhoeddwyd, ynghyd â metadata, mewn ystorfa sefydliadol briodol o fewn 3 mis o ddyddiad derbyn. Lle mae caniatâd hawlfraint cyhoeddwr yn caniatáu ac nad oes unrhyw gyfyngiad o ran cyfrinachedd neu fasnach, bydd y fersiynau hyn yn rhai Mynediad Agored. Ni fydd allbynnau sy'n destun embargo yn cael eu rhyddhau i'r cyhoedd nes bod y cyfnod embargo wedi dod i ben.

² Yng nghyd-destun prosiectau ymchwil myfyrwyr, rhaid i bob myfyriwr ymchwil wneud yn siŵr eu bod yn gyfarwydd â disgwyliadau ymchwil eu Grŵp/Ysgol/Sefydliad Ymchwil mewn perthynas â storio a lledaenu allbwn eu hymchwil. Rhaid i fyfyrwyr ymchwil ymgysylltu â'u Goruchwyliwr a'u Grŵp Ymchwil/Ysgol Ymchwil/Sefydliad Ymchwil i hwyluso lledaenu allbwn eu hymchwil lle bo'n briodol. Am gyngor pellach, cysylltwch â Gwasanaethau Llyfrgell y Brifysgol neu Dîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil.

P'un a yw'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn berthnasol neu beidio, disgwylir i Ymchwilwyr gydymffurfio â Pholisi Cyhoeddiadau Mynediad Agored y Brifysgol (gweler [Atodiad 1](#)) sy'n cynnwys disgwyliadau penodol ynghylch cofrestru a chyhoeddi allbwn ymchwil i ystorfa sefydliadol Prifysgol Caerdydd (ORCA). Wrth gyhoeddi allbynnau ymchwil, a lle bo'n berthnasol, dylid dyfynnu Dynodwyr Gwrthrych Digidol (DOIs) i gynyddu effaith a gwelededd. Anogir yn fawr i ddefnyddio dynodydd safonol ar gyfer awduron fel ORCID er mwyn gwneud yn siŵr bod allbynnau'n cael eu priodoli'n gywir.

3.5.2 Penderfynu ar Awduraeth

Awduraeth yw'r dull mwyaf blaenllaw o ddyrannu credyd a chyfrifoldeb am waith deallusol neu greadigol. Nid oes unrhyw safonau cydnabyddedig ar gyfer penderfynu ar awduraeth, ac mae'r rheolau a chonfensiynau yn amrywio ar draws y disgyblaethau ymchwil. Mae'r cyfrifoldeb dros benderfynu ar awduraeth gyda'r rheini sy'n gysylltiedig â chreu cyhoeddiadau. Felly, mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod pawb sy'n gysylltiedig â chreu cyhoeddiad yn ymwybodol o, ac yn gydymffurfio gyda, unrhyw ofynion a bennir gan yr arianwyr, cyfnodolion neu gyrff proffesiynol.

Er mwyn helpu i atal arfer awduraeth anfoesegol ac osgoi anghydfodau, dylid trafod meini prawf awduraeth a chytuno arno â phawb sy'n ymwneud a phrosiect ymchwil yn y cyfnod cynnar, a'i adolygu'n rheolaidd. Dylid cofnodi'r trafodaethau hyn, ac unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch awduraeth.

Lle nad oes unrhyw ofynion disgyblaeth benodol, ariannwr neu ofynion cyfnodolyn, y rheol gyffredinol yw y dylid ond rhestru unigolyn fel awdur os yw ef/hi wedi gwneud cyfraniad deallusol sylweddol at greu'r cyhoeddiad **ac** yn cytuno i fod yn atebol amdano. Fel mater o arfer gorau, mae Prifysgol Caerdydd yn disgwyl i unrhyw un sy'n bodloni'r meini prawf isod gael eu rhestru fel awdur:

- i. Rhywun sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i **naill ai**'r cysyniad o ddyluniad y prosiect ymchwil **neu** ddadansoddi/dehongli data ymchwil; **AC**
- ii. Drafftio'r cyhoeddiad a/neu ddiwygio'r cyhoeddiad ar gyfer cynnwys deallusol pwysig; **A**
- iii. Cymeradwyo'r fersiwn terfynol o'r cyhoeddiad.

Ni fwriedir i'r meini prawf uchod gael ei ddefnyddio i wrthod awduraeth y rhai sy'n haeddu clod, a dylid rhoi'r cyfle i'r holl unigolion sy'n bodloni'r maen prawf cyntaf i gymryd rhan yn y gwaith o ddrafftio/diwygio'r cyhoeddiad, ac i gymeradwyo'r fersiwn terfynol.

Nid yw helpu i gaffael arian neu ddata yn ddigonol i ennill teitl awdur; nac ychwaith goruchwyliaeth gyffredinol o dîm ymchwil. Dylid cydnabod cyfraniadau o'r math hwn yn y testun, ond nid fel awduron. Nid yw'r arfer o 'awduraeth er anrhydedd (neu rodd)' yn dderbyniol; ac nid yw methu â rhestru rhywun fel awdur sy'n bodloni'r meini prawf perthnasol ychwaith yn dderbyniol.

Rhaid i awdur allu adnabod ei gyfraniad penodol i'r ymchwil cyhoeddedig. Ef/hi sy'n gyfrifol am adolygu a chymryd cyfrifoldeb dros ei gyfraniad cyn cyhoeddi. Ar ôl cyhoeddi, tybir bod yr awduron yn cymeradwyo'r cyhoeddiad ac yn cefnogi canfyddiadau'r ymchwil ar y cyd.

3.5.3 Cydnabod y Cyfranwyr

Rhaid i Ymchwilwyr gydnabod gwaith yr holl gyfranogwyr (gan gynnwys cydweithwyr ac eraill sydd wedi cefnogi'r ymchwil) sydd heb fodloni'r meini prawf ar gyfer awduraeth. Rhaid i Ymchwilwyr gydnabod ffynhonnell y cyllid sy'n gysylltiedig â'r ymchwil. Mae hyn yn berthnasol wrth gyhoeddi canfyddiadau ymchwil, a phryd bynnag caiff datganiadau eu gwneud ynaglŷn â'r

ymchwil. Rhaid cydnabod ffynhonnell y data neu samplau pan ddefnyddir data neu samplau gan drydydd parti.

3.6 Hyfforddiant

3.6.1 Trosolwg

Cyfrifoldeb yr Ymchwilwyr eu hunain yw cymryd rhan mewn hyfforddiant yn yr arferion da cyfredol a'r gofynion statudol sy'n berthnasol i'w maes ymchwil. Cyfrifoldeb y Brifysgol yw gwneud yn siŵr bod darpariaethau digonol ar gyfer hyfforddi a datblygu er mwyn galluogi staff ymchwil a myfyrwyr ymchwil i ennill sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer eu rôl bresennol, ac i gefnogi datblygiad eu gyrfa yn y dyfodol. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo'n llawn i egwyddorion Concordat 2008 i gefnogi datblygiad gyrfa Ymchwilwyr (gweler [Atodiad 1](#)) sy'n darparu 'a single, unambiguous statement of the expectations and responsibilities of Researchers, their managers, employers and funders with regard to how research careers should be managed and supported in higher education institutions (p2).'

Bydd hyfforddiant yn y sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith ymchwil yn cael eu darparu ar lefel Ysgol, Sefydliad Ymchwil neu grŵp ymchwil yn gyffredinol, fel bo'n briodol. Dylid rhoi sylw arbennig i ddarparu hyfforddiant yn yr holl sgiliau sydd eu hangen ar Ymchwilwyr dibrofiad i wneud eu gwaith ymchwil.

Mae'r Tîm Datblygu Staff yn gyfrifol am gefnogi hyfforddiant staff ar draws y Brifysgol, ac mae aelod dynodedig o staff yn gyfrifol am staff ymchwil. Mae Rhaglen 'Ymchwilydd Caerdydd' yn cynnwys pob gweithdy sgiliau trosglwyddadwy traws-ddisgyblaeth a ddarperir ar gyfer staff ar lwybr gyrfa Ymchwil gan isadran datblygu staff canolog y Brifysgol. Caiff yr hyfforddiant hwn ei drefnu o gwmpas y pedwar parth a nodir yn y Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr (a ddatblygwyd gan Vitae): gwybodaeth a galluoedd deallusol; effeithiolrwydd personol; llywodraethu a threfnu ymchwil; ac ymgysylltu, dylanwad ac effaith. Mae gan staff sy'n cymryd rhan mewn ymchwil hefyd fynediad at y Rhaglen Datblygu Staff cyffredinol, sy'n cael ei chyhoeddi'n flynyddol i bob aelod o staff, ac sy'n cynnwys llawer o gyrsiau yn y maes ymchwil. Am ragor o wybodaeth am hyfforddiant a datblygu gyrfa i staff ymchwil, gweler [Atodiad 1](#).

Ysgolion Academaidd sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod eu myfyrwyr ymchwil yn cael mynediad at hyfforddiant priodol. I'r perwyl hwn, Ysgolion sy'n gyfrifol am gyflwyno neu gaffael y sgiliau, dulliau a thechnegau ymchwil sy'n benodol i'w disgyblaeth a'u cyd-destun ymchwil lleol.

I ategu datblygiad sgiliau trosglwyddadwy a roddir gan Ysgolion, mae Academi Doethuriaeth y Brifysgol yn darparu rhaglen o sgiliau ymchwil cyffredinol, sgiliau proffesiynol a sgiliau datblygiad gyrfa, sydd wedi'u mapio i'r pedwar maes a nodir yn y Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr (a ddatblygwyd gan Vitae). Am ragor o fanylion, gweler [Atodiad 1](#).

3.6.2. Cyfrifoldeb Ymchwilwyr Arweiniol/Goruchwylwyr

Mae'n bolisi gan y Brifysgol fod Ymchwilwyr yn cael goruchwyliaeth ddigonol gan eu Hymchwilwyr Arweiniol/Goruchwylwyr, ynghyd ag adolygiadau rheolaidd o'u cynnydd. Mae adnabod anghenion hyfforddi a datblygu a darparu cyngor ar yrfa yn elfennau allweddol o broses Adolygiad Datblygiad Perfformiad (ar gyfer staff) a Gweithdrefn Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil (ar gyfer myfyrwyr). Cyfrifoldeb yr Ymchwilydd Arweiniol/Goruchwylwr yw gweithio gyda staff/myfyrwyr ymchwil i nodi a dogfennu eu hanghenion hyfforddi a sut caiff hyn eu diwallu. Yn achos myfyrwyr Ôl-raddedig Ymchwil (PGR), gellir perfformio hyn yn unol â Pholisi a Gweithdrefn ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil.

Mae'n bwysig bod Ymchwilwyr Arweiniol/Goruchwylwyr yn datblygu'r sgiliau priodol mewn perthynas â datblygu eu staff a'u cyfrifoldebau rheoli. Disgwylir i unigolion gyda chyfrifoldebau goruchwyllo, gydymffurfio â'r egwyddorion a'r disgwyliadau a gynhwysir yn 'Academydd Caerdydd' a 'Disgwyliadau Perfformiad y Coleg'. Wrth gynnig cefnogaeth ynghylch gyrfaoedd, dylai Ymchwilwyr Arweiniol/Goruchwylwyr dynnu ar wasanaethau cefnogi ac adnoddau'r Brifysgol, gan gynnwys y rhai hynny ar gyfer myfyrwyr a staff Ymchwil fel sy'n briodol. Am ragor o wybodaeth ac adnoddau am Fframwaith Arwain a Rheoli Prifysgol Caerdydd, gweler [Atodiad 1](#).

3.6.3 Rhaglen Hyfforddiant Ar-lein Gonestrwydd Ymchwil

Datblygwyd rhaglen hyfforddiant ar-lein i gynorthwyo Ymchwilwyr i ddeall eu cyfrifoldebau a gwneud yn siŵr bod ymchwil yn cael ei chynnal hyd at y safonau proffesiynol uchaf. Nid oes bwriad i'r hyfforddiant gwmpasu pob agwedd ar Onestrwydd Ymchwil; mae'n darparu trosolwg o'r ymddygiadau a'r egwyddorion allweddol ar draws pob disgyblaeth ymchwil. Mae cwblhau'r hyfforddiant yn orfodol i bob aelod o staff sydd â chyfrifoldeb dros ymchwil ac Ymchwilwyr Ôl-raddedig³. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae Ymchwilwyr yn bennaf gyfrifol am wneud yn siŵr bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gynnal gwaith ymchwil yn eu disgyblaeth: ni ddylai cwblhau'r rhaglen hyfforddi ar-lein ddisodli hyfforddiant sy'n benodol i ddisgyblaeth a datblygu.

Mae'r rhaglen hyfforddi ar-lein wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil y Brifysgol, sydd ar gael yn [Atodiad 1](#).

3.7 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae dyletswydd sector cyhoeddus ar Brifysgol Caerdydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ym mhopeth y mae'n ei wneud, gan gynnwys ymchwil. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb hefyd yn darparu hawliau i unigolion mewn perthynas â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ar sail y 'nodweddion gwarchoddedig' dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010⁴. Mae'n rhaid i Ymchwilwyr gydnabod dyletswyddau penodol Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol fel corff cyhoeddus hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac ymdrechu i wneud yn siŵr nad oes neb dan anfantais anghyfreithlon yn sgil y ffordd rydym yn cyflawni ein swyddogaethau. Rhaid i Ymchwilwyr gadw at y Ddeddf Cydraddoldeb a pholisïau a chanllawiau'r Brifysgol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar eu gwaith.

Canllawiau penodol ar ystyried materion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn gwaith ymchwil ar gael drwy adran Llywodraethu a Chynllunio Strategol y Brifysgol ac ar gael ar wefan y Brifysgol (gweler [Atodiad 1](#))

Yn ogystal â'r uchod, mae RCUK/UKRI yn disgwyl i'r rhai sy'n cael cyllid gan y Cyngor Ymchwil i:

- i. hyrwyddo ac arwain newid diwylliannol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- ii. ymgysylltu â staff ar bob lefel i wella hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth;

³ Noder y gall y grwpiau staff a myfyrwyr sy'n gorfod cyflawni'r rhaglen hyfforddiant newid o bryd i'w gilydd. Cyfeiriwch at y tudalennau ar y Fewnryd sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 am y rhestr ddiweddaraf.

⁴Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion gwarchoddedig yw'r seiliau lle mae gwahaniaethu yn anghyfreithlon. Y nodweddion a ddiogelir (Adran 4) dan y Ddeddf yw: oedran, anabled, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred), rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

- iii. wneud yn siŵr bod pob aelod o'r gweithlu ymchwil yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi i roi sylw i anghymhellion a rhwystrau anuniongyrchol recriwtio, cadw a chynnydd mewn gyrfaeod ymchwil;
- iv. darparu tystiolaeth o ffyrdd y mae materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu rheoli ar lefel sefydliadol ac adrannol.

Ar ben hynny, mae'r Brifysgol yn mynnu bod y rhai mewn swyddi arweinyddol yn cynnal ymwybyddiaeth drylwyr o ofynion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a rhannu'r wybodaeth honno gyda'r rhai dan eu harweinyddiaeth.

3.8 Gofynion Moesegol

3.8.1 Trosolwg

Cyfrifoldeb yr Ymchwilwyr yw gwneud yn siŵr y cynhelir ymchwil un unol â'r safonau moesegol uchaf. Rhaid i ymchwilwyr wneud yn siŵr eu bod yn gwbl ymwybodol o ddisgwyliadau'r Brifysgol ar gyfer ymddygiad moesegol ymchwil ac yn cydymffurfio â nhw, yn ogystal â gofynion moesegol arianwyr ymchwil, cyrff proffesiynol a/neu ddisgwyliadau o ran disgyblaeth eu hymchwil.

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i Ymchwilwyr ystyried holl oblygiadau moesegol eu hymchwil, gan gynnwys yr effaith ar: yr unigolion sy'n cymryd rhan yr ymchwil neu sydd wedi'u heffeithio ganddo; anifeiliaid; yr amgylchedd; a gwrthrychau diwylliannol. Rhaid i ymchwilwyr wneud yn siŵr bod dyluniad eu hymchwil yn ystyried pob ffactor moesegol a bod yr ymchwil yn ceisio cyflawni'r budd mwyaf posibl ac yn lleihau'r perygl o niwed.

Yn ogystal â gwneud yn siŵr bod y rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil a'u pynciau yn ddiogel, rhaid i Ymchwilwyr ystyried eu diogelwch a'u lles eu hunain a chydymffurfio â holl bolisiau a chanllawiau perthnasol y Brifysgol, gan gynnwys y Polisi Gweithio ar Eich Pen Eich Hun gweler Atodiad 1).

3.8.2 Ymchwil sy'n cynnwys Pobl, Deunydd Dynol (gan gynnwys Gweddillion Dynol Hynafol) neu Ddata Dynol

Mae'r canllawiau a ganlyn yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid cadw atynt yn achos yr holl ymchwil sy'n cynnwys pobl, deunydd dynol (gan gynnwys gweddillion dynol hynafol) neu ddata dynol.

Mae'n rhaid i ymchwil gadw at yr holl ofynion a chanllawiau cyfreithiol a gynhyrchir gan gyrrff priodol, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i), y Côt Ymarfer hwn, a'r Côt Ymarfer ar gyfer Ymchwil i Feinweoedd Dynol, deddfwriaeth Diogelu Data, Deddf Meinweoedd Dynol 2004, canllawiau gan gyrrff proffesiynol perthnasol neu bwyllgorau moeseg ymchwil perthnasol. Mae'n hollbwysig o safbwynt cyfreithiol a moesegol bod yr holl wybodaeth a geir o waith ymchwil ynglŷn ag unigolion yn cael ei chadw'n hollol gyfrinachol a'i storio'n ddiogel.

Mae'r Brifysgol yn gofyn bod ymchwil sy'n cynnwys pobl, deunyddiau dynol (gan gynnwys gweddillion dynol hynafol) neu ddata dynol yn cael ei adolygu yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol Pwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgol oni bai bod y gwaith ymchwil:

- i. yn cael ei adolygu gan bwyllgor moeseg allanol gorfodol, e.e. ymchwil sy'n cynnwys y GIG, lle mae pwyllgorau moeseg allanol eisoes yn bodoli i ystyried cynigion ymchwil, a lle mae eu defnydd ar gyfer ymchwil o'r fath yn orfodol. Mewn achosion o'r fath nid oes gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgol na Phwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (UREC) y grym i roi cymeradwyaeth foesegol i'r cynnig ymchwil;

- ii. yn defnyddio dim ond gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus ac yn gyfreithlon, e.e. data cyfrifiad, ystadegau am y boblogaeth a gyhoeddir gan adrannau'r llywodraeth a llythyrau/dyddiaduron personol mewn llyfrgelloedd cyhoeddus

Mae pob pwyllgor moeseg yn dibynnu ar yr wybodaeth a ddarperir gan yr Ymchwilydd i lywio eu penderfyniadau. Felly, cyfrifoldeb yr Ymchwilydd yw wneud yn siŵr bod yr wybodaeth a ddarperir i'r pwyllgorau hynny'n gyflawn ac yn gywir.

Os yw'r Ymchwilydd yn ansicr a oes angen adolygiad moesegol, dylid cyfeirio pob ymholiad yn y lle cyntaf at Gadeirydd priodol Pwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgol neu Swyddog Moeseg yr Ysgol.

Os bydd ymchwil yn cynnwys casglu neu ddefnyddio Meinweoedd Dynol (gan gynnwys poer a hylifau corfforol eraill), rhaid i'r Tîm Cydymffurfio â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol eu hadolygu cyn eu cyflwyno i bwyllgor moeseg. Dyma sydd angen ei wneud hefyd os caiff y deunydd ei wneud yn anghellog ar unwaith.

Mae gofynion yr adolygiad moeseg ym Mhrifysgol Caerdydd wedi eu cynllunio i ddangos bod Ymchwilydd wedi ystyried materion moesegol yn ymwneud â chynllun ac ymddygiad eu hymchwil. Bydd y system hon, yn galluogi Ymchwilydd i wneud cais am gyllid gan y cyrff hynny sydd angen adolygiadau a chyhoeddiadau o'r fath mewn cyfnodolion sy'n gofyn am dystiolaeth o adolygiad moesegol. Bydd y Brifysgol yn ymdrechu i gefnogi Ymchwilydd wrth fyfyrion ar faterion moesegol mewn ymchwil drwy ddarparu cymorth drwy Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol, y SRECs, Swyddog Moeseg yr Ysgol a thrwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi.

Er gwaethaf y materion sensitif a'r cyfyngiadau ynghylch data sy'n ymwneud â phobl, mae'r egwyddor bod data ymchwil "mor agored â phosibl, ac ar gau yn ôl yr angen" yn parhau i fod yn berthnasol yma. Er bod data 'crai'/heb ei brosesu yn gallu cynnwys manylion a fyddai, os ydynt ar gael yn rhwydd, yn galluogi nodweddion sensitif i gael eu cysylltu ag unigolion penodol, gallai gwneud data yn ddiennw a/neu gyfuno data amddiffyn y bobl sy'n rhan o'r ymchwil a bodloni'r nod o sicrhau bod data sylfaenol ar gael a/neu yn gallu bod o ddefnydd i ymchwilydd eraill. Er mwyn galluogi hyn yn iawn, byddai'n rhaid ystyried y mater wrth greu ffurflenni cydsynio, fel bod caniatâd i wneud data o'r fath ar gael yn agored, mewn fformat addas sy'n amddiffyn y rhai sy'n cymryd rhan, a'i fod yn cael ei gaffael o'r dechrau.

Am ragor o wybodaeth ynghylch gofynion y Brifysgol ar gyfer ymchwil anghlinigol sy'n cynnwys pobl, gweler [Atodiad 1](#).

3.8.3 Ymchwil sy'n cynnwys Cyfranogwyr Dynol: Egwyddorion Sylfaenol

Mewn unrhyw ymchwil sy'n cynnwys pobl, rhaid rhoi'r ystyriaeth bennaf i ddiogelwch, hawliau ac urddas y rhai sy'n cymryd rhan.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ehangder y methodolegau ymchwil sy'n cael eu defnyddio ar draws y disgyblaethau academaidd, ac y gallai materion ac arferion moesegol amrywio o fewn cyd-destun y methodolegau yn ogystal ag o fewn cyd-destun disgyblaeth. Ym mhob disgyblaeth ymchwil, mae deddfwriaeth Diogelu Data yn mynnu sail gyfreithlon ar gyfer casglu a defnyddio gwybodaeth am bobl sy'n cymryd rhan y gellir eu hadnabod mewn ymchwil (gweler [Adran 3.3](#)). Y sail gyfreithlon ar gyfer y rhan fwyaf o ymchwil a wneir gan y Brifysgol yw'r dybiaeth y bydd prosesu data'r sawl sy'n cymryd rhan yn hanfodol ar gyfer cyflawni tasg gyhoeddus er budd y cyhoedd.

Mae egwyddor cydsyniad gwybodus yn ddull pwysig o helpu i sicrhau ymddygiad moesegol ymchwil mewn llawer o fethodolegau a disgyblaethau. Fodd bynnag, dylid nodi bod ystyried y sail gyfreithlon er mwyn prosesu data personol o dan gyfraith Diogelu Data yn rhwybeth sydd ar wahân

i unrhyw ofynion caniatâd moesegol. Pryd bynnag y bydd ymchwil ar unigolion y gellir eu hadnabod yn cael ei ystyried heb ganiatâd a/neu heb fod y testun yn gwybod am hynny, rhaid gofyn am gyngor gan Swyddogion Moeseg yr Ysgol a'r Gwasanaethau Sicrwydd yn Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu y Brifysgol.

Os cynhelir ymchwil gyda phlant a/neu oedolion sydd mewn perygl (y cyfeirir atynt weithiau fel 'oedolion agored i niwed') rhaid bod yn ofalus a chadw at Bolisi Diogelwch y Brifysgol: Plant ac Oedolion mewn Perygl (gweler [Atodiad 1](#)). Mae'r polisi hwn yn cynnwys canllawiau ar faterion pwysig i'w hystyried wrth weithio gyda grwpiau agored i niwed yn rhan o brosiect ymchwil ac mae'n cynnwys rhwymedigaethau penodol ar gyfer Ymchwilwyr, Ymchwilwyr Arweiniol, Penaethiaid Ysgol a phobl eraill. Lle bo'n berthnasol, efallai y bydd angen i Ymchwilwyr gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn eu galluogi i gynnal eu hymchwil gyda phlant a/neu oedolion mewn perygl.

Rhaid i Ymchwilwyr gydymffurfio â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ym mhob achos lle na fydd gan y rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil y galluedd i roi caniatâd dilys yn ystod y prosiect, neu lle byddant o bosibl wedi colli'r galluedd hwnnw. Mewn achosion o'r fath, dylai'r protocol ymchwil roi manylion am rôl a chyfrifoldebau unigolion y mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil yn ddibynnol arnynt (e.e. rhieni, gofalwyr, 'ceidwaid porth'), a dylai nodi sut mae cydsyniad yn cael ei geisio gan y sawl sy'n cymryd rhan ('cydsyniad go iawn') neu sut mae darpariaethau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cael eu rhoi ar waith.

Os bydd Ymchwilwyr o'r farn bod pobl sy'n cymryd rhan mewn ymchwil yn agored i risg neu niwed afresymol, neu os oes pryderon yn ymwneud â defnyddio neu storio deunydd dynol mewn ffordd amhriodol a/neu heb eu trwyddedu, neu ddefnyddio neu storio data personol yn amhriodol, rhaid iddynt roi gwybod i'w rheolwr neu unigolyn priodol arall yn y Brifysgol am eu pryderon, a rhoi gwybod i'r awdurdod rheoleiddio priodol hefyd lle bo angen.

3.9 Ymchwil Meinweoedd Dynol a Deddf Meinweoedd Dynol 2004

Mae'r Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 (HT Act) yn cynnig fframwaith ar gyfer rheoleiddio tynnu (lle bo'n briodol), storio a defnyddio meinweoedd dynol at Ddibenion Rhestredig penodol, gan gynnwys ymchwil. Mae'r Ddeddf Meinweoedd Dynol yn berthnasol i 'Ddeunydd Perthnasol', a ddiffinnir fel deunydd sy'n dod o'r corff dynol ac sy'n cynnwys celloedd dynol a hylifau'r corff (e.e. poer, gwaed ac wrin) a chynhyrchion gwastraff ychwanegol yn ogystal ag adrannau soled o feinwe. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i'r holl ddeunydd a gesglir neu a ddefnyddir ar gyfer ymchwil, hyd yn oed os caiff ei ddefnyddio neu ei wneud yn anghellog ar unwaith, neu os caiff ei gasglu gyda sêl bendith Pwyllgor Moeseg Ymchwil y GIG.

Rhaid i'r holl staff a myfyrwyr sy'n casglu, storio, defnyddio neu'n gwaredu meinweoedd dynol a) ddarllen a dilyn Côd Ymarfer Prifysgol Caerdydd ar gyfer Ymchwil Meinweoedd Dynol a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol cysylltiedig, b) astudio modiwl hyfforddiant ar-lein Prifysgol Caerdydd am y Ddeddf Meinweoedd Dynol, a c) cofrestru pob prosiect ymchwil neu gasgliadau Meinweoedd Dynol gyda'r Swyddog Meinweoedd Dynol lleol.

Cyfrifoldeb pob aelod unigol o staff/myfyrwyr yw gwneud yn siŵr eu bod wedi darllen a dilyn y ddogfennaeth briodol a bod y prosiect/casgliad wedi'i gofrestru.

Mae gwefan Deddf Meinweoedd Dynol y Brifysgol (gweler [Atodiad 1](#)) yn darparu gwybodaeth benodol yn ymwneud â'r safonau disgwylidig o ran casglu, defnyddio, storio a gwaredu meinweoedd dynol ac yn rhoi mynediad at Gôd Ymarfer Prifysgol Caerdydd ar gyfer Ymchwil Meinweoedd Dynol a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol cysylltiedig. Mae modd cael rhagor o wybodaeth gan y Tîm Cydymffurfio â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol (HTA@Caerdydd.ac.uk).

3.10 Ymchwil sy'n Cynnwys Anifeiliaid

Mae ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn deall sut mae systemau yn gweithio o fewn corff byw. Lles yr anifeiliaid sy'n dod gyntaf yn yr holl ymchwil a gynhelir yn y Brifysgol, ac mae gan y Brifysgol nifer o gamau diogelu ar waith. Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i'r camau craffu moesegol manylaf, cydymffurfio cyfreithiol a'r safonau lles uchaf posibl. Mae'r ymchwil a gynhelir ym Mhrifysgol Caerdydd yn targedu clefydau niwro-ddirywiol, canser, asthma, diabetes, glawcoma, parasitiaid, strôc, anhwylderau sy'n effeithio ar gwsg a'r cof, brechlynnau a llawer mwy.

Rhaid ceisio dewisiadau eraill yn lle defnyddio anifeiliaid mewn ymchwil lle bynnag y bo modd, a dylai Ymchwilwyr allu dangos bod yr holl ddewisiadau eraill wedi cael eu hystyried. Os nad oes modd osgoi cynnwys anifeiliaid, rhaid pwysu a mesur pryderon lles anifeiliaid yn erbyn y buddiannau posibl o ran dealltwriaeth a gwybodaeth feddygol a gwyddonol a ddaw yn sgîl yr ymchwil. Yn ogystal, wrth ddylunio'r protocol ymchwil i'w ddilyn, dylid ystyried yn barhaus ffyrdd posibl o gymryd lle, lleihau neu fireinio cyfranogiad anifeiliaid (Egwyddor y 3R). Mae hyn yn golygu:

- i. defnyddio dulliau nad ydynt yn cynnwys anifeiliaid yn lle defnyddio anifeiliaid lle bynnag y bo modd;
- ii. lleihau'r niferoedd angenrheidiol i gael canlyniadau dilys os nad oes modd defnyddio dulliau eraill;
- iii. mireinio'r holl weithdrefnau i leihau niwed ac effeithiau andwyol.

Wrth ystyried y defnydd o anifeiliaid ar gyfer ymchwil, rhaid cadw at yr holl ofynion cyfreithiol a'r canllawiau a gynhrychir gan gyrrff priodol eraill, yn enwedig rheolaethau'r Swyddfa Gartref drwy'r Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986. Yn rhan o hyn, rhaid i gynigion ymchwil gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y pwyllgorau moeseg a rheoleiddio perthnasol, drwy'r Pwyllgor Safonau Biolegol. Gellir dod o hyd i fanylion am reoleiddio defnyddio anifeiliaid mewn gweithdrefnau gwyddonol, a'r ddeddfwriaeth gyfredol, ar wefan y Swyddfa Gartref (gweler [Atodiad 1](#)).

Bydd ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid angen trwyddedau gan y Swyddfa Gartref ar gyfer y Brifysgol, yr Ymchwilydd a'r prosiect, ac mae modd cael y ffurflenni cais ar gyfer y rhain ar y wefan hefyd. Mae dyletswydd ar yr holl Ymchwilwyr a staff cymorth i gynnal safonau uchel o ofal dros yr anifeiliaid dan sylw yn yr ymchwil. Mae'n ofynnol cadw at lefelau rhagorol o hwsmonaeth a lles anifeiliaid dan oruchwyliaeth filfeddygol. Mae modd cael canllawiau'r Brifysgol ar ofalu am anifeiliaid a'u defnyddio mewn ymchwil, a chynghor ynghylch Trwyddedau'r Swyddfa Gartref, gan y Swyddog Safonau Biolegol (BSO).

Y Swyddog Safonau Biolegol ddylai gael gwybod yn y lle cyntaf am unrhyw bryderon sy'n ymwneud â phrosiectau ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid. Gall y Swyddog fynd â phryderon ymhellach drwy hysbysu Deiliad Trwydded Sefydliad y Brifysgol, lle bo angen. Bydd y Swyddog a/neu Ddeiliad Trwydded y Sefydliad yn rhoi cyngor priodol i wneud yn siŵr y bodlonir holl amodau perthnasol y drwydded ac yn paratoi adroddiad ar gyfer yr awdurdod rheoleiddio priodol lle bo angen.

3.11 Ymchwil Glinigol

3.11.1 Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Fframwaith Polisi)

Mae'r Fframwaith Polisi (sydd wedi disodli'r Fframweithiau Llywodraethu Ymchwil ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol) yn berthnasol i ymchwil a gynhelir gan y GIG neu ddefnyddio adnoddau'r GIG a allai effeithio ar ansawdd gwasanaethau'r GIG. Mae adnoddau'r GIG yn golygu cleifion y GIG (gan gynnwys y rhai a recriwtiwyd drwy eu cysylltiad â'r GIG e.e. perthnasau cleifion, y rhai a recriwtiwyd drwy rinwedd eu statws fel cyn-gleifion), meinwe neu ddata cleifion, staff, cyfleusterau neu gymorth.

Mae'r holl ymchwil sy'n dod o fewn cwmpas y Fframwaith Polisi yn mynnu bod rhaid cael Noddwr sy'n llywodraethu'r ymchwil. Cyfrifoldeb yr Ymchwilwyr yw gwneud yn siŵr eu bod wedi cael sêl bendith Noddwr cyn dechrau'r ymchwil. Os bydd Ymchwilwyr yn disgwyl i Brifysgol Caerdydd fod yn Noddwr ar eu cyfer, rhaid iddynt gysylltu â'r Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesedd.

I weld holl ofynion y Fframwaith Polisi a rhagor o ganllawiau ar gynnal ymchwil gyda'r GIG, gweler [Atodiad 1](#).

3.11.2 Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004 (SI 2004/1031)

Mae Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004 a diwygiadau dilynol yn gosod nifer o gyfrifoldebau cyfreithiol ar Ymchwilwyr a sefydliadau ymchwil sy'n ymwneud ag unrhyw ymchwiliad y mae pobl yn cymryd rhan ynddo gyda'r bwriad o:

- i. ddarganfod neu wirio effeithiau clinigol, ffarmacolegol neu ffarmacodeinamig eraill un neu ragor o gynhyrchion meddyginiaethol;
- ii. nodi unrhyw adwaith anffafriol i un neu ragor o gynhyrchion o'r fath, neu;
- iii. astudio amsugno, dosbarthu, metaboledd a/neu ysgarthiad un neu ragor o gynhyrchion o'r fath gyda'r nod o ganfod diogelwch neu effeithlonrwydd y cynhyrchion hynny.

Dan y Rheoliadau, mae'n anghyfreithlon dechrau Treial Clinigol o Gynnyrch Meddyginiaethol Ymchwiliol (CTIMP) yn y Deyrnas Unedig nes:

- i. bydd y treial wedi cael ei awdurdodi gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA); a
- ii. bod pwyllgor moeseg wedi rhoi cymeradwyaeth ffafriol i'r protocol; a
- iii. bod noddwr ar gyfer y treial wedi cael ei gytuno.

Am ragor o wybodaeth am Dreialon Clinigol, gweler [Atodiad 1](#).

3.11.3 Cofrestru Treialon Clinigol ac Ymchwil Glinigol ar Gronfeydd Data sydd ar gael i'r Cyhoedd

Rhaid i'r holl Dreialon Clinigol gael eu cofrestru ar gronfa ddata gyhoeddus briodol. Yn wir, o safbwynt arfer gorau, dylai'r holl brosiectau Ymchwil Clinigol gael eu cofrestru ar gronfa ddata sy'n agored i'r cyhoedd. Mewn rhai achosion, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud â Threialon Clinigol, mae cofrestru yn amod mynegol o farn moesegol a ffafriol.

Mae Datganiad Helsinki Cymdeithas Feddygol y Byd yn nodi bod "Pob astudiaeth ymchwil sy'n cynnwys bodau dynol yn gorfod cael eu cofrestru mewn cronfa ddata sydd ar gael i'r cyhoedd cyn recriwtio" ac mae Pwyllgor Rhyngwladol Cyfnodolyn y Golygyddion Meddygol (ICMJE) yn ystyried cyhoeddi treialon clinigol os ydynt wedi cofrestru mewn cofrestrfa addas yn unig. Mae deddfau UE yn gofyn i CTIMPs gael eu cyflwyno ar gofrestr gyhoeddus (gydag eithriadau prin ar gyfer astudiaethau gwirfoddol iach).

Diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) o Dreial Clinigol yw: ... 'unrhyw astudiaeth ymchwil sy'n neilltuo cyfranogwyr dynol neu grwpiau o fodau dynol i un neu fwy o ymyriadau sy'n ymwneud â iechyd er mwyn gwerthuso'r effeithiau ar ganlyniadau iechyd'. Yn y Deyrnas Unedig, mae hyn y golygu bod cofrestru ar gronfa ddata gyhoeddus yn orfodol ar gyfer yr astudiaethau canlynol:

- CTIMP
- Ymchwilio Clinigol neu astudiaeth arall o ddyfais feddygol
- Treial sy'n gyfuniad o gynnyrch meddyginiaethol ymchwiliol a dyfais meddyginiaethol ymchwiliol
- Treial clinigol arall i astudio ymyriad newydd neu dreial clinigol ar hap i gymharu ymyriadau mewn ymarfer clinigol.

I sicrhau cydymffurfiaeth bydd rhaid arsylwi ar y canlynol:

Cofrestru

Mae'r Awdurdod Ymchwil Iechyd yn cydnabod unrhyw gofrestr a gaiff ei adnabod yn Gofrestr Cynradd WHO, neu gofrestr a gymeradwyir gan ICMJE. Gweler [Atodiad 1](#). Mae'n hanfodol bod unrhyw ymchwil a ystyrir yn Dreial Clinigol yn cael ei gofrestru cyn ymrestru'r claf cyntaf.

Cynnal a Chadw

Rhaid i ymchwilwyr ddiweddarau statws y treial yn rheolaidd yn y gofrestrfa a gwneud yn siŵr bod yr holl addasiadau yn cael eu hadlewyrchu yn y wybodaeth a geir yn y gofrestrfa.

Cyflwyno crynodeb o'r canlyniadau

Rhaid i grynodeb o'r canlyniadau gael eu cyhoeddi ar bob cofrestr perthnasol ymhen deuddeg mis ar ôl gorffen y treial (ymhen chwe mis ar gyfer treialon pediatrig) yn y fformat sy'n ofynnol gan y gronfa ddata berthnasol.

3.12. Eiddo Deallusol

3.12.1 Diffiniad a Phwysigrwydd

Mae eiddo deallusol (IP) yn gynnyrch meddwl, creadigrwydd ac ymdrech ddeallusol. Yn ystod eu gwaith ymchwil, ymgynghori ac addysgu, bydd aelodau staff academiaidd yn aml yn cynhyrchu eiddo deallusol (e.e. darganfyddiadau a dulliau technegol, lluniau, dyluniadau, canlyniadau arbrofol, darnau o ryddiaith a cherddoriaeth). Mae cyrff cyllido'n disgwyl i brifysgolion fasnacheiddio eiddo deallusol sy'n deillio o waith ymchwil y maent wedi ei gyllido (gweler [Atodiad 1](#)).

Gan hynny, mae'n bwysig bod y Brifysgol yn manteisio'n fasnachol ar yr eiddo deallusol a gynhyrchir ganddi, lle bo hynny'n briodol, er mwyn:

- i. ymledu canfyddiadau ymchwil a helpu i wireddu eu gwerth llawnaf;
- ii. cynorthwyo ffyniant economaidd lleol a chenedlaethol;
- iii. creu incwm ychwanegol i'r Brifysgol a'i staff academiaidd;
- iv. ennill bri i'r Brifysgol.

Er nad oes sicrwydd o enillion ariannol yn sgil masnacheiddio eiddo deallusol, lle mae enillion o'r fath yn cael eu gwireddu gall Ymchwilwyr elwa'n ariannol drwy drefniadau rhannu refeniw'r Brifysgol. Mae'r manteision eraill yn cynnwys:

- i. rhagor o gyfleoedd i ymchwilio ar y cyd;
- ii. statws a chydabyddiaeth entrepreneuriaidd;

iii. y boddhad o wneud cyfraniad cadarnhaol at y gymdeithas.

Ar y cyfle cyntaf dylai Ymchwilwyr ddwyn unrhyw eiddo deallusol (IP) a allai fod â gwerth masnachol i sylw'r Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi (RIS).

3.12.2 Perchnogaeth

Y Brifysgol sy'n berchen ar eiddo deallusol a gynhrychir drwy weithgareddau ymchwil ac addysgu a gynhelir yn rhan o rôl gyflogedig arferol yn y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau a gynhelir y tu allan i'r amgylchedd gwaith arferol, lle cynhelir gweithgareddau o'r fath er mwyn cyflawni dyletswyddau/rôl gyflogedig yr unigolyn o dan sylw. Rhaid i staff roi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw ddyfais neu eiddo deallusol a allai fod o werth masnachol.

Nid yw myfyrwyr Israddedig ac Ymchwil Ôl-raddedig yn cael eu cyflogi gan y Brifysgol ac, fel y cyfryw, gallant fod yn berchen ar yr eiddo deallusol maent yn gyfrifol am ei gynhyrchu ar eu pen eu hunain. Mewn rhai amgylchiadau, fodd bynnag, bydd yn ofynnol i fyfyrwr neilltuo ei fuddiant berchnogaeth mewn eiddo deallusol i'r Brifysgol neu i drydydd parti. Mae hyn fel arfer yn berthnasol i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig lle mae aseiniad o'r fath yn rhan o delerau cyllid eu hysgoloriaeth. Mewn amgylchiadau eraill, bydd Goruchwylir y myfyrwr a/neu aelodau eraill o'r grŵp ymchwil y mae'r myfyrwr yn gweithio gyda nhw yn cyfrannu at y gwaith o greu eiddo deallusol. Er mwyn gwneud y gorau o'r posibilrwydd o fasnacheiddio eiddo deallusol yn llwyddiannus, bydd y myfyrwr yn cael ei annog i neilltuo hawliau perchnogaeth i'r Brifysgol ar yr un sail â staff academiaidd (a fydd yn cynnwys cyfran o unrhyw refeniw a gynhrychir o fasnacheiddio llwyddiannus).

Fel arfer bydd y Brifysgol yn caniatáu i'r awdur fod yn berchen ar yr hawlfraint ar unrhyw waith a gaiff ei gyhoeddi, ac yn ildio unrhyw hawl a allai fod ganddi ar fuddiannau a ddaw yn sgil y cyhoeddi. Mae rhai eithriadau i hyn:

- i. hawlfraint ar ddeunyddiau cwrs at ddiben cwrs sy'n cael ei gynnal neu a gaiff ei gynnal gan y Brifysgol;
- ii. hawlfraint ar unrhyw raglen feddalwedd a gynhrychwyd yn ystod cwrs arferol cyflogaeth;
- iii. hawlfraint ar unrhyw waith a all fod yn angenrheidiol i amddiffyn hawliau eiddo deallusol y gallir ei ecploetio'n fasnachol;
- iv. hawlfraint ar unrhyw waith a gomisiynwyd gan sefydliad allanol lle mae telerau ac amodau'r comisiwn yn ei gwneud yn ofynnol i drosglwyddo'r hawlfraint i'r sefydliad hwnnw.

Gellir manteisio ar eiddo deallusol neu arbenigedd Prifysgol drwy greu cwmnïau deillio. Mae'r Brifysgol yn annog ac yn cefnogi sefydlu cwmnïau deillio priodol ac mae wedi datblygu nifer o ddulliau cyllido ar gyfer y diben hwn. Bydd RIS yn gweithio gyda staff wrth ddatblygu cynigion busnes a chael y gymeradwyaeth angenrheidiol gan y Brifysgol. Bydd RIS hefyd yn helpu i ganfod ffynonellau cyllid ar gyfer cwmnïau deillio. Am ragor o wybodaeth ynghylch sefydlu cwmnïau deillio a mentrau tebyg, cysylltwch â RIS.

3.12.3 Diogelu

Dylai Ymchwilwyr ddiogelu eu buddiannau eu hunain, buddiannau'r Brifysgol a buddiannau unrhyw gyllidwr neu gorff sy'n cydweithio mewn perthynas ag Eiddo Deallusol. Yn y rhan fwyaf o wledydd y byd, bydd datgeliad blaenorol yn annilysu unrhyw gais am batent ac yn niweidio buddion masnachol posibl. Gan hynny, ni chaiff Ymchwilwyr ddatgelu syniad i unrhyw barti nad yw'n gyflogedig gan y Brifysgol, ar lafar nac yn ysgrifenedig, nes bod camau wedi'u cymryd i ddiogelu'r eiddo deallusol. Ar ôl cael y diogelwch priodol, caiff y syniad neu'r canlyniadau eu cyhoeddi yn y ffordd arferol. Dylid cofio nad yw myfyrwyr Israddedig nac Ymchwil Ôl-raddedig yn cael eu cyflogi gan y Brifysgol.

Pan gredir bod gan ddarn o ymchwil botensial masnachol, gellir cymryd camau ar unwaith i werthuso p'un a gall y syniad gael ei warchod drwy ffeilio cais am batent. Er mwyn cael patent, rhaid i ddyfais fod yn newydd, gynnwys cam dyfeisgar nad yw'n amlwg ar unwaith ac yn gallu cael ei ddefnyddio'n ddiwydiannol. RIS sy'n gyfrifol am reoli cyllideb patent y Brifysgol a bydd yn trafod ac yn cytuno â'r dyfeisiwr/dyfeiswyr y ffyrdd gorau o ddiogelu a manteisio ar yr eiddo deallusol gyda chynghor gan Banel Ymgynghorol Masnach y Brifysgol.

University College Cardiff Consultants Cyf (UC3) yw cwmni dal patentau'r Brifysgol, a hwn yw'r cyfrwng ar gyfer ymelwa ar ran y Brifysgol, patentau a hawliau eiddo deallusol eraill. Pan fydd trwyddedu neu gytundeb masnacheiddio tebyg wedi cael ei sicrhau gyda chwmni, bydd RIS yn gwneud yn siŵr y cydymffurfir â'r telerau, yn monitro derbyn breindaliadau i'r Brifysgol ac yn trefnu dosbarthu incwm i ddyfeiswyr, Ysgolion a'r Brifysgol.

3.13 Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Gall ymchwilydd unigol ymgymryd ag ystod o weithgareddau yn ogystal ag ymchwil ac addysgu. Mae gan ymchwilydd gysylltiadau allanol gyda'r sector preifat, y sector cyhoeddus, sefydliadau gwirfoddol a chymunedau lleol, ac maent yn rhoi cyngor arbenigol iddynt. Yn ychwanegol, gall ymchwilydd fod yn adolygwyr cymheiriaid, yn olygyddion cyfnodolyn, yn rhan o gwmnïau deillio, ac o bosibl ynghlwm wrth weithgareddau eraill mewn rôl bersonol sydd heb gysylltiad â'u cytundeb cyflogaeth gyda'r Brifysgol. Mae gweithgareddau o'r fath yn ymestyn gafael a dylanwad y Brifysgol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Rhaid i ymchwilydd barhau i fod yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau gwirioneddol neu bosibl a allai godi o ymgymryd â gweithgareddau o'r fath.

Mae gwrthdaro rhwng buddiannau yn wrthdaro rhwng buddiannau preifat a chyfrifoldebau swyddogol unigolyn mewn swydd o ymddiriedaeth. Mae ymchwilydd 'yn cael eu hymddiried' gan eu bod yn atebol i gymdeithas, y Brifysgol, cyrff proffesiynol ac arianwyr er mwyn gwneud yn siŵr bod eu hymchwil yn cael ei chynnal yn onest ac yn unol â'r safonau proffesiynol uchaf. Mae hyn yn cynnwys cynnal yr egwyddor o fod yn dryloyw drwy ddatgan pob gwrthdaro posibl mewn buddiannau.

Gall gwrthdaro mewn buddiannau fod yn wrthdaro gwirioneddol neu'n cael ei ystyried yn rhesymol fel un gwirioneddol (h.y. gwrthdaro gwirioneddol neu bosibl). Bydd gwrthdaro rhwng buddiannau yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae gan yr ymchwilydd fuddiannau yn neilliant y prosiect a allai arwain at fantais bersonol (er enghraifft byddai o fantais i'w hunain neu aelod o deulu ac/neu ffrindiau'r ymchwilydd) a allai, felly, beryglu gonestrwydd y prosiect. Gallai mantais bersonol fod yn ariannol a/neu heb fod yn ariannol (e.e. hyrwyddo credoau personol a/neu ideolegol ymchwilydd).

Gall gwrthdaro rhwng buddiannau fod yn dderbyniol cyhyd â bod yr ymchwilydd yn glir ynghylch ei fodolaeth a, lle bo'n briodol, yn cymryd camau gweithredol i reoli unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau yn effeithiol fel nad yw'n peryglu gonestrwydd y prosiect. Ni ddylai gwrthdaro rhwng buddiannau ddylanwadu ar ddyfarniad proffesiynol ymchwilydd yn anffafriol. Os yw natur a difrifoldeb y gwrthdaro rhwng buddiannau yn achosi risg o gyfaddawdu gonestrwydd ymchwil yn ddifrifol, ni ddylai ymchwilydd barhau â'r gwaith ymchwil.

Cyfrifoldeb yr Ymchwilydd unigol yn y lle cyntaf yw rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau, boed hynny'n wrthdaro personol neu broffesiynol. Y gofyniad sylfaenol yw bod gwrthdaro rhwng buddiannau, boed yn wirioneddol neu'n bosibl, yn gorfod cael ei nodi, ei ddatgan ac yn cael sylw cyn gynted ag y daw i'r amlwg. Os yw'r ymchwilydd yn ansicr p'un a oes gwrthdaro ai peidio, datgelu'r gwrthdaro posibl sydd orau fel y nodir yn y gweithdrefnau isod.

Rhaid i ymchwilwyr gydnabod bod gwrthdaro mewn buddiannau, os caiff ei reoli'n amhriodol, yn gallu cael effaith negyddol ar ymchwil a gall arwain at golli hyder y cyhoedd mewn gweithgaredd ymchwil (yn ogystal ag effeithio ar enw da'r Ymchwilwyr, y Brifysgol a thrydydd partion perthnasol (arianwyr, cyfnodolion ac ati)).

3.13.1 Categoriâu Gwrthdaro

Mae hwn yn ymwneud â phob math o wrthdaro rhwng buddiannau, gwirioneddol a phosibl, a allai gynnwys:

- i. Cael cyllid gan gwmni: Mae aelod o staff y Brifysgol yn derbyn cyllid ymchwil gan gwmni lle mae ganddynt fuddiant ariannol sylweddol yn creu sefyllfa o wrthdaro posibl. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â chwmnïau bach, preifat ac ni ddylai atal aelod o staff rhag cael cefnogaeth ymchwil gan gwmni mawr, a ddyfynnir yn gyhoeddus gan eu bod nhw, neu aelod o'u teulu, yn berchen ar rai cyfranddaliadau yn y cwmni.
- ii. Masnacheiddio ymchwil: pan fo'r Brifysgol yn rhan o fasnacheiddio ymchwil sy'n arwain at fuddiannau ariannol ar gyfer yr ymchwilydd, dylai'r prosiect neu weithgaredd canlyniadol gynnwys, yn uniongyrchol neu mewn swyddogaeth oruchwylio, aelod o staff o bwysigrwydd addas sydd ddim yn gysylltiedig â'r cwmni sy'n darparu cyllid. Yn yr un modd, byddai aelod o staff sy'n cael cymorth ymchwil mewn sefyllfa o wrthdaro pe baent yn gallu cael dylanwad dros benderfyniadau ariannu'r cwmni neu dderbyn telerau'r Brifysgol mewn cytundeb trwydded neu gontractaidd.
- iii. Buddiannau Ecwiti: mae'n dod yn fwy cyffredin i'r Brifysgol gael buddiannau ecwiti mewn cwmni yn rhan o gontract neu gytundeb masnacheiddio. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n bwysig bod y penderfyniadau buddsoddi a wneir am y buddiant ecwiti hwnnw yn cael ei gynnal gan broses sydd ar wahân i'r un sy'n gwneud penderfyniadau'r ymchwil.
- iv. Ymchwil sy'n cynnwys Cyfranogwyr Dynol: mae angen ystyriaeth arbennig o ran unrhyw sefyllfaoedd gwrthdaro posibl gydag ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol, organau neu feinweoedd, ac felly mae datgan unrhyw fuddiannau perthnasol o bwys arbennig. Gallai hyn cynnwys datgelu buddiannau i gyfranogwyr yr ymchwil, fel modd o ddiogelu gonestrwydd unigol a sefydliadol.
- v. Meysydd eraill lle gall wrthdaro godi:
 - lledaenu canfyddiadau ymchwil (e.e. eu hamseru a'u cynnwys);
 - defnydd o adnoddau'r Brifysgol (e.e. defnydd o staff neu adnoddau nad ydych yn cael eu hariannu);
 - cynnal diwylliant academiaidd (e.e. goruchwylio hawliau myfyrwyr);
 - trwyddedu technoleg (e.e. ymyriadau cyfrinachgar neu drafod telerau trwyddedu);
 - priodoldeb yr ymchwil a noddwyd (e.e. natur busnes yr ariannwr, neu sut mae'n gweddu â gweithgareddau eraill y Brifysgol, Coleg neu Ysgol)

3.13.2 Datganiad a Rheoli

Rhaid datgan gwrthdaro mewn buddiannau cyn gynted ag y maent yn dod i'r amlwg. Yn ogystal ag unrhyw ofynion allanol, fel y rhai a bennir gan gyrrff ariannu, rhaid i Ymchwilwyr ddatgan gwrthdaro mewn buddiannau i'r Brifysgol ac unrhyw bwyllgor moeseg ymchwil sy'n adolygu'r ymchwil (boed yn y Brifysgol, neu'n allanol).

Rhaid i'r holl staff sy'n rhan o ymchwil yn y Brifysgol gydymffurfio â gweithdrefn y datganiad yng nghanllawiau'r Brifysgol ynghylch datgelu buddiannau (gweler [Atodiad 1](#)). Rhaid i bob myfyriwr

sy'n cymryd rhan mewn ymchwil yn y Brifysgol roi gwybod i'w goruchwylwyr/tiwtoriadaid am unrhyw wrthdaro mewn buddiannau fel eu bod yn gallu mynd â'r mater ymhellach gyda Phennaeth yr Ysgol berthnasol.

Pan mae datganiad yn cael ei wneud, rhaid i Ymchwilwyr gydymffurfio â'r cyfarwyddyd a roddir gan y Brifysgol (boed hynny gan SREC, Goruchwyliwr a/neu Bennaeth yr Ysgol) o ran sut i reoli gwrthdaro mewn buddiannau, a dylid cofnodi hyn.

3.14 Gwrth-lwgrwobrwo, Atal Twyll a Gwrth-lygredd

Mae gan y Brifysgol bolisi sy'n gwahardd pob math o ymddygiad y gellir ystyried ei fod gyfystyr â llwgrwobrwo, llygredd neu dwyll. Mae Prifysgol Caerdydd, yn ogystal â'i staff a'i myfyrwyr, yn ymrwmo i weithredu'n broffesiynol, yn deg ac yn onest, gan wneud yn siŵr bod gwaith ymchwil yn cael ei gynnal mewn ffordd agored, dryloyw a moesegol. Mae disgwyl i Ymchwilwyr gydymffurfio â'r egwyddorion hyn bob amser a rhaid iddynt beidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd a allai beryglu eu gonestrwydd proffesiynol.

Cewch ragor o wybodaeth, canllawiau a hyfforddiant drwy gyfeirio at Bolisi Gwrth-lwgrwobrwo a Pholisi Gwrth-dwyll y Brifysgol (gweler [Atodiad 1](#)) neu cysylltwch â thîm y Gwasanaeth Sicrwydd yn yr Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu.

3.15 Rheolyddion Allforio

Mae Rheolyddion Allforio'r DU (Rheoli) yn gymwys i drosglwyddo rhai nwyddau strategol, technegol, meddalwedd neu wybodaeth sy'n gadael y DU. Lle be hynny'n berthnasol, mae angen i Ymchwilwyr gydymffurfio â'r Rheolyddion a gwneud cais am Drwydded Allforio (o Sefydliad Rheolyddion Allforio'r DU) i drosglwyddo gwybodaeth, technoleg a/neu nwyddau y tu allan i'r DU.

Mae angen i Ymchwilwyr fod yn ymwybodol bod modd i wybodaeth gael ei drosglwyddo drwy sgysiaau a thrwy dduiliau ffisegol ac electronig.

Mewn cyd-destun ymchwil, mae'r Rheolyddion yn fwy tebygol o fod yn gymwys i ymchwil wyddonol a thechnegol gyda cheisiadau milwrol, niwclear, cemegol, biolegol, taflegrau a cheisiadau awyrofod. Fodd bynnag, mae angen i'r holl Ymchwilwyr fod yn ymwybodol o'r Rheolyddion.

Mae Rhestr Strategol Rheolyddion Allforio'r DU yn cynnwys rhestr o'r nwyddau a'r dechnoleg sy'n amodol ar y Rheolyddion ac sydd angen awdurdodiad allforio (gweler [Atodiad 1](#)). Y categorïau eang yw:

- i. eitemau sydd wedi eu dylunio neu eu haddasu ar gyfer defnydd milwrol (a'u cydrannau arbennig)
- ii. eitemau defnydd deuol, sef y rhai y gellir eu defnyddio at ddibenion sifil neu filwrol, sy'n bodloni safonau technegol penodedig (a rhai o'u cydrannau)
- iii. technoleg a meddalwedd gysylltiedig
- iv. nwyddau a allai gael eu defnyddio i arteithio
- v. ffynonellau ymbelydrol

Yn ogystal â nwyddau a thechnoleg a reolir o dan y Rhestrau Rheoli Allforion Strategol, efallai y bydd angen Trwydded Allforio o hyd yn rhan o gamau rheoli cyffredinol neu ar gyfer 'defnyddwyr terfynol' sy'n berthnasol i nwyddau a thechnoleg a allai gael eu defnyddio i ddatblygu arfau dinistr

torfol (WMD). Bydd angen caniatâd hefyd ar gyfer eitemau sydd â diben milwrol yn y pen draw mewn gwledydd sydd o dan sancsiynau neu embargo.

Mewn rhai achosion, efallai na fydd y Rheolaethau yn berthnasol, hyd yn oed pan mae eitemau a reolir yn cael eu hallforio. Mae hyn oherwydd bod rhai eithriadau sy'n berthnasol mewn achosion penodol. Y prif eithriadau yw:

- i. 'Ymchwil gwyddonol sylfaenol' lle mae'r ymchwil yn waith arbrofol neu ddamcaniaethol a wneir yn bennaf i gaffael gwybodaeth am yr egwyddorion sylfaenol neu ffenomena, neu arsylwi ffeithiau sydd heb eu cyfeirio yn bennaf tuag at nod neu amcan ymarferol penodol (h.y. ymchwil damcaniaethol, sydd heb ei gymhwysu yn yr ymchwil; a
- ii. Gwybodaeth sydd eisoes yn gyhoeddus heb gyfyngiad ar ledaenu pellach.

Nid yw'r eithriadau yn gymwys lle ceir pryderon WMD, neu lle mae eitemau milwrol cyfyngedig yn cael eu hanfon at leoliad yn amodol ar gosbau/gwaharddiadau. O ystyried cais penodol yr eithriadau, rhaid i Ymchwilwyr ofyn am gyngor gan y Sefydliad Rheoli Allforio cyn dibynnu ar eithriad.

Mae gan Ymchwilwyr rwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau bod Trwydded Allforio ar gael, lle bo hynny'n berthnasol. Gall methu â sicrhau Trwydded Allforio a/neu fethiant i gydymffurfio gyda'i amodau, gael ei ystyried fel trosedd.

Dylai Ymchwilwyr fod yn ymwybodol os derbynnir nwyddau cymhwysol neu wybodaeth o wlad arall ar gyfer prosiect ymchwil, efallai y bydd angen cydymffurfio â rheoliadau allforio'r wlad honno. Rhaid i Ymchwilwyr wneud yn siŵr y ceisir cyngor gan y cydweithiwr/cyswllt yn y wlad honno.

I gael rhagor o wybodaeth ac adnoddau sy'n berthnasol i Reolaethau Allforio'r DU, gan gynnwys 'Teclyn Gwirio' ac arweiniad pellach i ymchwilwyr, gweler [Atodiad 1](#).

3.16 Ymchwil Sensitif o ran Diogelwch

O dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, mae gan y Brifysgol ddyletswydd gyfreithiol i roi 'sylv dyledus' i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth (a adwaenir fel y 'Ddyletswydd Atal'). Mae'r Brifysgol wedi rhoi camau cymesur ar waith i fodloni'r Ddyletswydd Atal mewn cyddestun ymchwil, tra'n parhau rhyddid academiaidd Ymchwilwyr i gynnal ymchwil dilys i feysydd fel terfysgaeth, eithafiaeth a radicaleiddio.

Mae Polisi'r Brifysgol ar Ymchwil Sensitif o ran Diogelwch (gweler [Atodiad 1](#)) yn darparu fframwaith ar gyfer cofrestru a rheoli 'Ymchwil Sensitif o ran Diogelwch' (SSR) sy'n gallu achosi Polisi Atal. Nod y Polisi yw gwneud yn siŵr bod yr Ymchwil sy'n Sensitif o ran Diogelwch yn cael ei gynnal yn briodol ac yn gyfrifol, a bod camau priodol yn cael eu cymryd i ddiogelu Ymchwilwyr rhag y perygl o radicaleiddio a/neu'r risg y gallai eu gweithgarwch ymchwil arwain at gamddehongli o fwriad gan awdurdodau allanol.

Yn y pen draw, mae Ymchwilwyr yn gyfrifol am nodi p'un a ellid ystyried yr ymchwil y maent yn ei gynnal yn Sensitif o ran Diogelwch ac, os felly, rhaid iddynt gydymffurfio â holl ofynion Polisi SSR, ochr yn ochr ag unrhyw ofynion ariannwr a/neu gyfnodolyn.

3.17 Camymddygiad Ymchwil

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'r holl Ymchwilwyr arsylwi'r safonau uchaf o ymddygiad proffesiynol a gonestrwydd trwy gydol eu prosiect ymchwil, gan gynnwys ysgrifennu a chyflwyno'r papurau/traethodau ymchwil.

Os oes gan unigolyn reswm da dros amau camymddygiad mewn ymchwil, rhaid rhoi gwybod yn unol â gweithdrefn berthnasol y Brifysgol a amlinellir isod.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i drin pob honiad o gamymddygiad ymchwil o ddifrif, ac mae gweithdrefnau ar waith sy'n nodi'r sail y gellir gwneud honiadau, a'r broses a ddilynir i ymchwilio a mynd i'r afael â honiadau o'r fath.

Mae Gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer delio â honiadau o Gamymddwyn mewn Ymchwil Academaidd (gweler [Atodiad 1](#)) yn amlinellu'r camau i'w cymryd pan mae honiad yn erbyn unrhyw aelod presennol o staff neu aelod o staff o'r gorffennol, gan gynnwys academyddion gwadd, o ran ymchwil a gynhelir pan fyddant yn cael eu cyflogi gan neu yn y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol hefyd weithdrefnau ar waith i reoli honiadau o arfer annheg a/neu gamymddygiad ymchwil yn erbyn myfyrwyr ymchwil, megis Polisi a Gweithdrefn Gonestrwydd Academaidd (Myfyrwyr Ymchwil) Prifysgol Caerdydd. Caiff y gweithdrefnau hyn eu cynnwys yn Rheoliadau Academaidd y Brifysgol (gweler [Atodiad 1](#)).

4. Datganiad i Gloi

Mae'r Côt Ymarfer hwn ar gyfer Gonestrwydd Gwaith Ymchwil a'i Llywodraethu yn ceisio gwella diwylliant ymchwil proffesiynol, agored a gonest sydd eisoes yn amlwg yn y Brifysgol, heb amharu ar fynd ar drywydd gwell gwybodaeth a dealltwriaeth yn sylfaenol.

Rhaid cydymffurfio â phob safon allanol sy'n berthnasol i'r ymchwil ac unrhyw ofyn perthnasol gan randdeiliaid, yn ogystal â chyfraith gyffredin y Brifysgol a rhwymedigaethau statudol.

5. Adolygiad a Chydnabyddiaethau

Mae'r Côt Ymarfer hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol gan Dîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil y Brifysgol (Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesedd) a Phwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil y Brifysgol (URIEC).

Mae Prifysgol Caerdydd yn cydnabod yn ddiolchgar bod y sefydliadau a ganlyn wedi llunio rhai agweddau ar y Côt Ymarfer hwn:

Awdurdod Ymchwil Iechyd	RCUK/UKRI
Swyddfa Gonestrwydd Ymchwil y DU	Prifysgolion y DU

Atodiad 1: Deunydd Ffynhonnell a Pholisïau a Chanllawiau Cysylltiedig

Pwnc	Adran(nau) Côd Ymarfer	Adnoddau/dolenni
Ymchwil Anifeiliaid	2.5 Gofal a Pharch 3.8 Gofynion Moesegol 3.10 Ymchwil sy'n Cynnwys Anifeiliaid	Canllawiau'r Swyddfa Gartref; Profion ar anifeiliaid ac ymchwil
		Concordat ar Onestrwydd Ynghylch Ymchwil Anifeiliaid yn y DU
		Tudalennau gwe 'Ymchwil Anifeiliaid' Prifysgol Caerdydd (PC)
Awduraeth	3.5 Cyhoeddiadau ac Awduriaeth	Canllawiau Swyddfa Gonestrwydd Ymchwil y DU (UKRIO); Arfer da mewn ymchwil: Awduraeth
		Canllaw Y Pwyllgor Moeseg Cyhoeddiadau (COPE); Sut i ymdrin ag anghydfodau awduraeth: canllaw i ymchwilwyr newydd a Beth yw awduraeth? Dogfen drafodaeth COPE
Ymddygiad/ Cyfrifoldeb Gweler hefyd 'Hyfforddiant' a 'Goruchwyllo/Ar weinyddiaeth'	2.6 Atebolrwydd a Chyfrifoldeb	I Staff: Fframwaith PC; 'Academydd Caerdydd' a 'Disgwyliadau perfformiad y Coleg'
Llwgrwobr/T wyll	3.14 Gwrth-Lwgrwobrwyo, Atal Twyll a Gwrth-Lygredd	Polisi Gwrth-Lwgrwobrwyo PC
		Polisi Atal Twyll PC
Ymchwil Glinigol	3.8 Gofynion Moesegol 3.11 Ymchwil Glinigol	Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol
		I Staff: Canllawiau PC; Cynnal ymchwil yn y GIG I Fyfirwyr: Canllawiau PC; Cynnal ymchwil yn y GIG
		Canllawiau PC ar Dreialon Clinigol Cynhyrchion Meddyginiaethol Ymchwiliadol
		Rhestr Sefydliad Iechyd y Byd o Gronfeydd Data sy'n Hygyrch i'r Cyhoedd
		Rhestr Pwyllgor Rhyngwladol Cyfnodolyn y Golygyddion Meddygol o Gronfeydd Data sy'n Hygyrch i'r Cyhoedd
Gwrthdaro rhwng Buddiannau	2.3 Agwedd Agored 3.13 Gwrthdaro rhwng Buddiannau	I Staff: Ffurflen Canllaw Datgelu Buddiant PC
Diogelu Data Gweler hefyd 'Rheoli Data a Chofnodion Ymchwil'	3.2 Rheoli Data a Chofnodion Ymchwil 3.3 Diogelu Data	Polisi Diogelu Data PC
		Canllawiau PC; Diogelu Data ar gyfer Ymchwilwyr
		NODER: Ar adeg ysgrifennu'r Côt Ymarfer hwn, roedd y canllawiau oedd wedi'i gynnwys ar y dudalen Fewnrwyd uchod yn y broses o gael ei diweddarau yng ngoleuni'r Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data. Dylech drin unrhyw ganllawiau'r Brifysgol sy'n ymwneud â Deddf Diogelu Data 1998 yn ofalus, a dylech geisio cyngor os nad ydych yn siŵr.
	2.5 Gofal a Pharch	Tudalennau gwe a pholisï 'Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant' PC

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	3.1 Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth 3.7 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	I Staff: Canllawiau PC; Cydraddoldeb mewn Ymchwil I Fyfrwyr: Canllawiau PC; Cydraddoldeb mewn Ymchwil
Moesege (cyffredinol)	3.1 Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth 3.8 Gofynion Moesegol	I Staff: Tudalennau gwe a pholisi 'Moesege Ymchwil' PC I Fyfrwyr: Tudalennau gwe a pholisi 'Moesege Ymchwil' PC
		I Staff: Polisi Gweithwyr Unigol PC I Fyfrwyr: Polisi Gweithwyr Unigol PC
Rheolyddion Allforio	3.15 Rheoli Allforio	Adran ar gyfer Masnach Ryngwladol; Rhestrau Rheolyddion Allforio Strategol y DU
		Rheolyddion Allforio ' Offeryn Gwirio ' a Llinell Gymorth Sefydliad Rheolyddion Allforio 020 7215 4594/ eco.help@trade.gsi.gov.uk
		Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a Sefydliad Rheolyddion Allforio; Canllawiau ar Ddeddfwriaeth Rheolyddion Allforio ar gyfer academyddion ac ymchwilwyr yn y DU
		Cymdeithas Ymarferwyr Cyfreithiol y Brifysgol a chanllawiau Prosiect Alpha King Coleg Llundain (mewn partneriaeth â Sefydliad Rheoliadau Allforio a'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad); Canllaw a Phecyn Addysg Uwch ar Reolyddion Allforio a Chynllun ATAS Fetio Myfyrwyr
Rheolaeth Ariannol	2.6 Atebolrwydd a Chyfrifoldeb 3.1 Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth	Rheolaeth Ariannol PC
Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd	2.6 Atebolrwydd a Chyfrifoldeb 2.5 Gofal a Pharch 3.1 Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth	Datganiad Polisi Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd PC
		Polisiâu Amgylchedd CU
		I Staff: Gweithdrefnau a chanllawiau 'Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd' PC I Fyfrwyr: Gweithdrefnau a chanllawiau 'Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd' PC
Ymchwil Meinweoedd Dynol	3.4 Gadael y Brifysgol 3.8 Gofynion Moesegol 3.9 Ymchwil Meinweoedd Dynol	I Staff: Tudalennau gwe 'Ymchwil Meinweoedd Dynol' PC I Fyfrwyr: Tudalennau gwe 'Ymchwil Meinweoedd Dynol' PC
Eiddo Deallusol	4. Eiddo Deallusol	I Staff: Tudalennau gwe ' Eiddo Deallusol ' PC I Fyfrwyr: Tudalennau ' Hawlfraint a'ch traethawd ymchwil ' PC
		I Staff: Polisi Hawliau Eiddo Deallusol PC
Mynediad Agored Gweler hefyd 'Cyhoeddiad'	2.3 Agwedd Agored 3.2 Rheoli Data a Chofnodion Ymchwil 3.5 Cyhoeddiadau ac Awduriaeth	Polisi Cyhoeddiadau Mynediad Agored PC
		Polisi Cynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig ar Fynediad Agored (UKRI)
		Polisi Mynediad Agored Ymddiriedolaeth Wellcome
		Polisi Mynediad Agored Arianwyr COAF
Data Agored	2.3 Agwedd Agored	Polisi Data Ymchwil ac Arloesedd a Choncordat ar Ddata Ymchwil Agored

Gweler hefyd 'Cyhoeddiad'	3.2 Rheoli Data a Chofnodion Ymchwil 3.5 Cyhoeddiadau ac Awduriaeth	Egwyddorion Data FAIR
Cyhoeddiad Gweler hefyd 'Awduraeth', 'Mynediad Agored', 'Data Agored'	3.5 Cyhoeddiadau ac Awduriaeth	Storfa Sefydliadol (ORCA) PC Gwefan COPE
Rheoli Data a Chofnodion Ymchwil Gweler hefyd 'Diogelu Data' a 'Data Agored'	3.1 Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth 3.2 Rheoli Data a Chofnodion Ymchwil 3.3 Diogelu Data	Polisi Rheoli Cofnodion ac Amserlenni Cadw Cofnodion PC Fframwaith Diogelu Gwybodaeth PC I Staff: Tudalennau gwe 'Rheoli Data' PC I Fyfrwyr: Tudalennau gwe 'Rheoli a Rhannu eich Data' PC Tudalennau gwe 'Rhaglen Rheoli Data a Gwybodaeth Ymchwil' PC
Camymddygiad Ymchwil	2.2 Gonestrwydd a Chywirdeb 2.6 Atebolrwydd a Chyfrifoldeb 3.1 Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth 3.17 Camymddygiad Ymchwil	Gweithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Honiadau o Gamymddwyn mewn Ymchwil Academaidd PC Tudalennau gwe 'Arfer Annheg', gan gynnwys gweithdrefn 'Gonestrwydd Academaidd wrth Astudio ar gyfer Gradd Ymchwil' PC Llawlyfr Rheoliadau Academaidd PC
Ymchwil Sensitif o ran Diogelwch	3.16 Ymchwil Sensitif o ran Diogelwch	I Staff: Polisi PC ar Ymchwil Sensitif o ran Diogelwch I Fyfrwyr: Polisi PC ar Ymchwil Sensitif o ran Diogelwch Polisi Atal PC
Diogelu	3.1 Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth 3.8 Gofynion Moesegol 3.8.2 Ymchwil sy'n cynnwys Cyfranogwyr Dynol: Egwyddorion Sylfaenol	Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl: Polisi a Chanllawiau PC Canllawiau PC sy'n benodol i Weithgareddau ar gyfer Ymchwilwyr
Goruchwyliaeth/Arweinyddiaeth	3.1 Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth 3.6.2 Cyfrifoldeb Ymchwilydd Arweiniol / Goruchwylwr 3.6 Hyfforddiant	UKRIO; Rhestr wirio a argymhellir ar gyfer ymchwilwyr I Staff: Canllawiau PC; 'Goruchwyllo Ymchwil' I Fyfrwyr: 'Eich Dyfodol'
Hyfforddiant Gweler hefyd 'Ymddygiad/Cyfrifoldeb' a 'Goruchwyllo/Arweinyddiaeth'	3.1 Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth 3.6 Hyfforddiant	Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr Fframwaith Datblygu Ymchwil (Vitae) I Staff: Polisi a Gweithdrefn ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil PC I Fyfrwyr: Polisi a gweithdrefn ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil

		<p>I Staff: Hyfforddiant PC; Rhaglen Ymchwilwyr Caerdydd a Chyrsiau (ymchwil) Datblygu Staff</p> <p>I Fyfrwyr: Hyfforddiant PC ar gyfer Ymchwilwyr Ôl-raddedig; Academi Ddoethurol a tudalennau gwe Hyfforddiant a Datblygiad Academi Ddoethurol</p>
		<p>I Staff: Rhaglen Hyfforddiant Ar-lein Gonestrwydd Ymchwil PC</p> <p>I Fyfrwyr: Rhaglen Hyfforddiant Ar-lein Gonestrwydd Ymchwil PC</p>
		<p>I Staff: Tudalennau gwe Adolygiad Datblygiad Perfformiad PC</p>

Adnoddau Gonestrwydd Ymchwil eraill

Prifysgolion y DU; 'Concordat i Gefnogi Gonestrwydd Ymchwil'
UKRIO; 'Côd Ymarfer ar gyfer Ymchwil'
RCUK/UKRI; Gwefan 'Gonestrwydd Ymchwil' a 'Polisi a Chanllawiau Llywodraethu ar Ymddygiad Ymchwil Da'
Prifysgol Erasmus Rotterdam; Gêm Cyfyng-gyngor: Proffesiynoldeb a Gonestrwydd mewn Ymchwil'

Atodiad 2: Strwythur Pwyllgor Gonestrwydd Ymchwil Prifysgol Caerdydd

